6 Modelling

6.1 Building Information Modelling (BIM)

It is widely recognised in the built environment sector that the translation of drawings into the actual structures frequently gives rise to unforeseen clashes, particularly in respect of complex junctions and mechanical and electrical services. It is common practice that clashes encountered are resolved reactively on site, often wasting materials and time. Through the use of software BIM's goal is to eliminate this waste.

BIM is, however, as much about people and process as it is about software, offering the opportunity to achieve greater efficiencies, as well as better working methods. The collaborative approach required to produce an effective design through BIM ensures a constant flow of information between disciplines. BIM then allows operatives to visualise each other's inputs, encouraging mutual understanding and good working relationships.

6.2 Using BIM at Glynn Vivian

The Grade-II* listing of the original Edwardian gallery restricts development of the building. The internal fabric couldn't be altered from its original state. False walls were used to hide electrical systems, whilst providing a pristine, unobstructed wall space for exhibitors.
Arup demonstrated how BIM could be used by the client and exhibitors to easily identify all the hidden electrical fixtures within the main gallery spaces. The aim was to allow exhibitors to place exhibits and wall fixings with the knowledge that they won't hit electrical services in the process.

6.2.1 Preparing the Model

For this project Arup (7) used "Matterport" a maneuverable scanner comprised of a 3D camera and sensors which spins 360 degrees on top of a five-foot tripod. The camera and array of 2D and 3D sensors rotates, to quickly capture the appearance and dimensions of a space.

LiDAR was the sensing technology used. It measures distance by illuminating a target with a laser and analyzing the reflected light. The information the scanning equipment collects generates point cloud data that can store the size and colour of the scanned objects.

By repeating every five to six feet, the technology can stitch together the scan data to build an accurate picture of the environment. The scanner also captures photographic data, which can be grouped together in an environment that is very similar to Google Street View.

The resulting point cloud data was processed and converted into a useable point cloud format for use within a data rich and parametric BIM package. This point cloud was used as a reference within the BIM environment, for building up an accurate representation. This was done by placing parametric elements such as walls, floors and roofs to match the point cloud.

6.2.2 Utilising the Model

To provide a way in which the gallery staff and exhibitors could access the data, and use it functionally within the gallery, Arup turned to augmented reality. New technologies are assisting design and construction teams in the visualisation of ideas and designs.
Virtual Reality (VR) through headsets and immersive environments and Augmented Reality (AR) allow designers, developers and users to visualize finished designs without them having to be built.

Present AR technologies require key markers (or locators), to allow data within the virtual environment to accurately overlay the real environment. Markers such as barcode and RFID tags were not seen as viable options for use within the gallery environment. The actual features of the building are utilised by applying Simultaneous Localisation And Mapping (SLAM).
Through SLAM, the Project Tango device uses points on surfaces to link actual surfaces to virtual, digital surfaces.

Project Tango is a technology platform from Google that allows developers to create experiences that incorporate 3D mapping, and augmented reality.

6.3 BIM Outcomes

This use of technology through AR allows users to visualise model information and assets that would not be possible otherwise. The end user can interrogate the model and identify the location of fixtures with relative ease. This will aid exhibition design as well as facilities management and maintenance.

Utilisation of BIM technologies provides an ideal opportunity for the construction industry to record buildings in an intelligent way. Through the careful combination of scanning and model creation, smart data can be generated and reused for multiple purposes. It provides an efficient way to reveal model information behind physical barriers.

7 Future Proofing - Application of Environment Bill

The project has highlighted future potential issues for the industry. Specifically, with regard to the upcoming incineration and landfill bans for wood, paper, cardboard, glass, plastic, metal and food waste as part of the Environment (Wales) Bill.

If the Bill were applied to this project around 50.0m3 of material may require an alternate disposal solution. As such, research will need to be carried out to understand what alternate disposal options, along with the appropriate infrastructure, are necessary to enable the necessary changes required by legislation.

8 Key challenges

8.1 Waste

The project forecasted particular waste management challenges resulting from:

- A compact working site with very limited storage space - the site is in a heavily congested area immediately adjacent to a busy arterial route taking traffic out of the city. There is ongoing renovation in this area of Swansea with the conversion of the old library (immediately opposite the site) into the new Swansea Metropolitan University - School of Art
- The site is on a steep hill resulting in a sloping site - deliveries and removals were limited to smaller vehicles and were only able to be partially filled resulting in additional loads to and from site
- The Grade-II* listed status - due to sensitive restoration and refurbishment, the potential for additional waste to be generated was identified. There was the potential for hazardous waste due to the original materials that may have been used
- Predicted waste streams - included plastic, timber, packaging, bricks (although many of these were removed, cleaned and prepared for reuse), concrete waste and plasterboard

Segregation of waste was managed well despite the space limitations. Tonne bags were used around the site which were then either removed by the company vehicle for recycling back at the skips they had at their yard or through bringing in skips for specific jobs when space allowed it.
Using the company vehicle to remove any surplus materials also demonstrated that having a site vehicle can be invaluable in preventing wastage and reduced the need to purchase more materials, at a company level.

8.2 Behavioural/Cultural

Site behaviours and culture can often lead to significant wastage or a laissez-faire attitude to waste and waste segregation.

Employees directly employed by John Weaver were found to be very aware of waste issues and how their wastage impacts on the project feasibility and costs. This was found to be following 2 years of staff training, raising awareness of staff at all levels of the company. Site Managers were trained on how to input waste data onto SMARTwaste themselves. They were found to regularly check the contents of skips, take out waste that wasn't segregated properly or could be re-used. If a skip couldn't be made available on site due to space restriction, John Weaver would put temporary storage on site, then transport the waste back to their yard to bulk the waste up for recycling.

With site management and all staff having a waste awareness on site it became embedded in site culture. When sub-contractors were employed to carry out work on site, waste awareness was raised with these sub-contractors along with minimising waste and using their materials effectively.

8.3 How has EZW Influenced Waste Management for the Project Team?

The Glynn Vivian Art Gallery was an extremely challenging project, with site constraints, programme and complex design. The existing building and in turn the site was on a steep hill with little room for set down or site compound areas, making logistics for the site material delivery, storage and waste segregation/removal very difficult. This resulted in the need to prioritise waste management to its up most effectiveness.

With the help of CEW's Enabling Zero Waste scheme we managed to identify opportunities which helped to reduce the waste impact. Due to the nature of a refurbishment project and the fact that a previous contractor had already carried out the demolition works, it was decided that we would focus our efforts on the area we could make a difference, for example reuse of existing materials within the refurbishment and new build extensions.

A consultant was provided by EZW who during their site visits worked with the site team to come up with new and alternative ways of reducing the waste on site.

The knowledge provided was extremely helpful and the good rapport that was built up with the site team went a long way to ensuring the best outcomes from the project.

CEW also provided the use of BIM for the project to see if this would help in the reduction of waste, however due to the already complexed design being in place it was unrealistic to try to use the model for the entire project. Therefore, it was decided to focus this more for the end user, to help reduce waste produced in the future by the constant redesign of the gallery spaces. It is felt that if BIM had been used as part of the design stage it would have helped in the coordination of many complexed details and in turn helped towards the reduction of waste for the project.

John Weaver Contractors and the project team certainly benefited from the knowledge and experience of working with CEW and the EZW scheme, and would welcome any opportunity to work with them in the future.

9 Successes

9.1 Welsh Government Targets

Towards Zero Waste (TZW), the Welsh Government's overarching strategy document on dealing with waste in Wales, aims to produce benefits for the environment, economy and for society. TZW sets a target for the construction and demolition industry in Wales to prepare for reuse, recycling or other material recovery at least 70% of waste, by weight, by 2015-16. The target for 2019-20 is 90%.

By reaching a reuse, recycling or other material recovery rate of 96.6%, by volume, the Glynn Vivian project shows how achievable the present target of 70%, by weight, is. It also highlights the achievability of the 2019-20 90%, by weight, target.

The Welsh Government aims for 100% diversion of construction and demolition waste from landfill by 2050. The 3.4% of waste calculated to have been landfilled on this project was due to the practices of the waste management company. Derwen could not supply project specific rates for recycling, recovery and landfill, only whole operations performance. This makes it impossible to prove 100% diversion from landfill until waste management companies either achieve 100% diversion, or have project specific recording of waste end destination.

Further focus is considered to be required on waste prevention and reuse rather than relying on the efficiencies of waste management infrastructure. A 1.4% reduction of waste still needs to be achieved year upon year in order for the Towards Zero Waste targets for the sector to be achieved.

9.2 Waste Awareness

Waste was high on the agenda of John Weaver and site employees, which was evident to the members of the EZW team who visited the site. Site team members employed directly by John Weaver were found to be aware of waste issues and how they impact on the project and costs of the project.

Site managers were trained to input waste data onto SMARTWaste themselves. They were found to regularly look in the skips and take out waste that wasn't segregated properly or could be re-used.

If a skip couldn't be made available on site due to space restriction, John Weaver would use temporary storage on site, then transport the waste back to their yard to be bulked up before disposal.

The work that has been carried out over the past 2 years by the environmental representative on site was impressive. Despite the project producing more waste than was anticipated, due to ground excavation and additional works, John Weaver found the best solutions for their waste through good relationships with local waste companies.

Waste awareness could be raised during pre-let meetings when bringing in contractors and thus ensuring the awareness is raised at the start and before coming onto site.

9.3 BIM

The innovative use of BIM and augmented reality (AR) on this project should provide significant benefits in the future. Asset and facilities management at the Glynn Vivian Art Gallery will be improved through the ability to see hidden services without exploratory works. This will save significant time, money and materials through the life of the gallery.

Similar use of BIM on other projects can now be realistically considered thanks to this innovative example. Applied across the whole construction and building management industry the use of AR with BIM could lead to a step change in efficiency and ways of working.

For this project the AR allowed visualisation of what has been put in place, and it could easily be used to visualise what will be put in place. Allowing engineers and site operatives greater, easier insight into what following trades will be installing and where, reducing abortive and corrective works.

10 Conclusion and recommendations

The Glynn Vivian Art Gallery has performed well against established SMARTWaste benchmarks and Welsh Government targets for the construction phase.

Whilst targets have been met, further focus is required on waste prevention and reuse, rather than relying on the effectiveness of waste management infrastructure. Opportunities exist for greater efficiency and effectiveness on site, offering potential for waste and cost savings.

Cost savings are available for companies willing to consider the waste hierarchy at all stages of a project. Prevention is the key level in the hierarchy when it comes to unlocking substantial savings, as highlighted by this project. BIM offers an opportunity for designs to be tested and altered with a view to prevention of, for example clashes. Both of which can be expensive and wasteful.

The importance of segregation of waste at source has been made clear, along with focusing on and discussing waste at all stages of a project, with all involved on site. Engagement with all members of the site team is important when attempting to maintain best practice and segregation during periods of pressure on site, especially the final stages before handover. .

10.1 Client Recommendations

Additional works can have a significant impact on waste arisings. In this case the client's request for additional work led to a reliance on mixed waste skips due to the inability to predict and plan for waste streams, as well as limited space on site.

Clients need to be aware how their decisions can have knock on impacts on the management of waste. They should be encouraged to think through their potential additional needs ideally long before construction. Consider how you will use your asset? What demands will you place on it and how will that affect the asset's longevity? BIM should help clients with visualising the new asset and help with this process.

When changes do need to be made during the works, client's should allow time for proper management for design, construction and waste management planning. Client's should have an ongoing dialogue with design consultants and contractors in case changes do need to be made.

10.2 Designer Recommendations

BIM offers a viable option for the elimination of design waste. Uptake of BIM will mean more design decisions are made earlier making the process more proactive than reactive. Easy visualisation of each discipline's inputs on site, through augmented reality, allows for easy identification of errors or clashes. Effective working in BIM ensures a constant flow of information, encouraging mutual understanding and good working relationships.

Consider asset management. How will the asset be used, and how will use change over time? For example, different exhibits will be hung in the gallery on different walls in different ways over the life of the gallery. Designing for adaption will extend asset usefulness and maintain asset life.

10.3 Contractor Recommendations

The set-up of the waste compound is a key part of the waste management strategy and should be a major concern of the site waste champion during planning for work on site. It should be a priority for contractors to have a member of the site team who takes ownership for waste management.

Waste compounds should contain segregated skips from day one on site and their purpose explained to everyone. Ideally a mixed waste skip should not be available, but if it is necessary it should be located furthest away from the site works, to discourage its use.

Focus should be given to ensuring contractual obligations, specifying that all stages of the waste hierarchy are observed before disposal to landfill. This will reduce the potential impact of sub-contractor decisions on project reuse, recycling or other material recovery targets. Focus on waste and discuss waste at all stages of a project, with all involved on site.

Packaging waste was significant on this project. Suppliers can play a key role in reducing packaging as long as contractors communicate the problems they face with disposal with their suppliers. Often packaging take-back schemes can be organised with

manufacturers or suppliers, but this requires foresight and planning so agreements are in place before the waste becomes an issue.

The Environment (Wales) Bill will ban disposal by incineration or landfill for wood, paper, cardboard, glass, plastic, metal and food waste. Contractors will need to consider how they will deal with these wastes as the cost for disposal will likely increase to pay for research into alternate disposal options. Prevention offers the most cost effective solution; best practice is key to this.

11 References

1. Welsh Government. Towards Zero Waste : The Overarching Waste Strategy Document for Wales. Cardiff : Crown Copyright, 2010.

2. Sir John Egan - Construction Task Force. Rethinking Construction. London : Crown Copyright, 1998.

3. John Weaver (Contractors). Company. John Weaver (Contractors). [Online] John Weaver (Contractors), 2015. [Cited:] http://www.johnweaver.co.uk/company.html.

4. Historic Wales. [Online] July 01, 2014. [Cited: September 13, 2016.] http://historicwales.gov.uk/.

5. City and County of Swansea Council. Glynn Vivian Art Gallery Redevelopment. City and County of Swansea Council - Leisure. [Online] August 31, 2016. [Cited: August 31, 2016.] http://www.swansea.gov.uk/article/7180/Glynn-Vivian-redevelopment.

6. Wales Online. Business: Business News. Wales Online. [Online] Wales Online, June 25, 2013. [Cited: August 31, 2016.] http://www.walesonline.co.uk/business/business-news/55-jobs-lost-construction-business-4709043.

7. ARUP. Reducing waste; BIM buried services case study. 2015.

Galluogi

DYFODOL DIWASTRAFF

Oriel Gelf Glynn Vivian

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU
CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

Galluogi Dyfodol Diwastraff: Oriel Gelf Glynn Vivian

Cynnwys

Oriel Gelf Glynn Vivian

1 Crynodeb Gweithredol

Mae Galluogi Dyfodol Diwastraff (EZW) yn gynllun gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) sy'n ceisio sefydlu os, a sut, y gall y diwydiant adeiladu gyrraedd y targedau diwastraff a osodir allan yn strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Mae CEW yn gweithio mewn cydweithrediad â'r diwydiant i geisio dirnad yn well sut y gall y diwydiant anelu at fod yn ddiwastraff, ac i ledaenu arferion gorau, atebion a chyfleoedd; ynghyd ag adnabod unrhyw rwystrau cysylltiedig i gyflawni'r targedau.

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn oriel gelf gyhoeddus yn Abertawe, De Cymru. Roedd adfywio a datblygu'r oriel yn rhan o'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer Bae Abertawe. Oherwydd nifer o newidiadau yn ystod y gwaith adeiladu, a gwaith ychwanegol, cynyddodd werth y contract gwreiddiol o £5.3m i £6.3m.

Aeth y contractwyr gwreiddiol, Opco Construction, i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2013 ar ôl cyflawni peth o'r gwaith dymchwel, gan gynnwys tynnu asbestos allan. Daeth EZW yn rhan o'r prosiect pan ddechreuodd John Weaver ar eu pecyn gwaith ym mis Mawrth 2014, oedd i'w gwblhau erbyn Mawrth 2015. Ond oherwydd problemau ar y safle, cafodd amserlen y prosiect ei hymestyn gyda'r adeilad yn agor ym mis Hydref 2016.

Contractiwyd tri chwmni i reoli'r gwastraff a gynhyrchwyd gan brosiect Glynn Vivian dros y cyfnod pan oedd EZW yn rhan o'r prosiect. Y rhain oedd;

- Derwen Plant Ltd. (Derwen) – Cwmni Cwmpawd Gwyrdd
- Stenor Environmental Services Ltd. (Stenor)
- Peter Davies Agricon Ltd. (Agricon)

Deliodd Stenor ac Agricon â'r gwastraff anadweithiol a gynhyrchwyd gan arglawdd yn cwympo yng nghefn y safle. Symudwyd llond 97 cynhwysydd o wastraff. Deliodd Derwen â'r gwastraff adeiladu a gafodd ei ddidol ar gyfer ailgylchu, adfer a thirlenwi. Drwy waith y tri chwmni rheoli gwastraff hwn, gallai'r prosiect adrodd y canlynol;

- Cyfanswm canran y gwastraff wedi'i atal neu ei ailddefnyddio = 1.8%
- Cyfanswm canran y gwastraff wedi'i ailgylchu = 82.9%
- Cyfanswm canran y gwastraff y llwyddwyd i adfer ynni ohono = 12.1%
- Cyfanswm canran y gwastraff i'w dirlenwi = 3.4%

Ar ôl llwyddo i gyflawni cyfradd adfer o 96.6% drwy ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer deunyddiau mewn ffyrdd eraill, yn ôl cyfaint, mae prosiect Glynn Vivian yn dangos pa mor gyraeddadwy yw targed presennol Llywodraeth Cymru o 70%, yn ôl pwysau. Mae hefyd yn dangos pa mor gyraeddadwy yw'r targed 90%, yn ôl pwysau, erbyn 2019-20. Nod Llywodraeth Cymru erbyn 2050 yw osgoi tirlenwi 100% o'r holl wastraff adeiladu a dymchwel. Mae'r 3.4% o wastraff y cyfrifiwyd iddo gael ei dirlenwi'n seiliedig ar gyfraddau tirlenwi blynyddol ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff Derwen.

Er llwyddo i gyflawni'r targedau uchod ystyrir bod angen mwy o ffocws ar ailddefnyddio ac atal gwastraff yn hytrach na dibynnu ar ba mor effeithiol yw'r seilwaith rheoli gwastraff. Rhaid i'r sector adeiladu gynhyrchu 1.4% yn llai o wastraff o un flwyddyn i'r llall er mwyn cyrraedd y targed Tuag at Ddyfodol Diwastraff.

Daeth arbedion cost y prosiect o ganlyniad i ystyried yr hierarchaeth wastraff, a thrwy reoli gwastraff yn effeithiol, i dros £400,000. Byddai hyn yn cyfateb i 6.3% o werth y prosiect. Roedd y costau rheoli gwastraff gwirioneddol yn cyfateb i 0.9% o werth y prosiect gan ddangos pa mor bwysig yw ystyried gwastraff ar gyfer sefyllfa ariannol a phroffidiolrwydd prosiect.

Dyma rai o lwyddiannau eraill y prosiect:

- Cafodd y rheolwyr safle eu hyfforddi i gofnodi data gwastraff ar SMARTWaste eu hunain
- Roedd y rheolwyr safle yn cymryd gwastraff o ddifrif gan fynd drwy'r sgipiau'n gyson a thynnu allan unrhyw wastraff oedd heb ei wahanu'n iawn neu y gellid ei ailddefnyddio
- Daeth John Weaver o hyd i atebion ar gyfer eu gwastraff drwy eu perthynas dda â chwmnïau gwastraff lleol
- Bu tîm John Weaver yn ymweld â Derwen i ennill dealltwriaeth o sut y caiff gwastraff ei reoli

Dyma rai o'r argymhellion ar gyfer contractwyr:

- Mae'n flaenoriaeth bod gan gontractwyr aelod o'r tîm ar y safle sy'n cymryd meddiant o reoli gwastraff. Mae hefyd yn hanfodol bwysig bod y person sy'n gyfrifol am gynhyrchu rhagolygon gwastraff mewn cysylltiad rheolaidd â thîm y safle i sicrhau bod y rhagolygon yn gyraeddadwy, rhesymol a seiliedig ar berfformiad blaenorol
- Bod pwysigrwydd gwahanu'r gwastraff ar y dechrau'n glir i holl aelodau'r tîm ar y safle
- Canolbwyntio ar, a thrafod gwastraff ym mhob un o wahanol gamau'r prosiect, a phawb ar y safle'n cyfrannu at hyn

Dyma rai o'r argymhellion ar gyfer cwsmeriaid:

- Mae cyfathrebu'n barhaus ag ymgynghorwyr dylunio a chontractwyr yn bwysig
- Yn ddelfrydol, dylid meddwl drwy'r anghenion ychwanegol a allai godi ymhell cyn y cam adeiladu ond, lle nad yw hyn yn bosib, mewn pryd i ganiatáu ar gyfer rheoli'r dyluniad a'r gwastraff yn briodol
- Bod yn ymwybodol o sut y gall penderfyniadau gael effaith ganlyniadol ar reoli gwastraff
- Ystyried sut y byddwch yn defnyddio eich ased? Pa alwadau y byddwch yn eu rhoi arno a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei hirhoedledd?

Dyma rai o'r argymhellion ar gyfer dylunwyr:

- Mae BIM yn cynnig opsiwn hyfyw ar gyfer dileu gwastraff dylunio. Mae'n hawdd delweddu mewnbwn pob crefftwr (e.e. trydanwyr) fel y gellir adnabod yn hawdd unrhyw wallau neu wrthdaro rhwng dyluniadau'r gwahanol grefftwyr
- Ystyried sut y rheolir ac y defnyddir yr ased. Sut y bydd y defnydd yn newid dros amser – er enghraifft yn yr achos hwn wrth hongian gwahanol arddangosion ar wahanol waliau
- Ymgysylltu â chontractwyr i wella dealltwriaeth o ddeunyddiau
- Ystyried beth yw meintiau safonol y deunyddiau yn y cam dylunio

2 Beth yw

2.1 Galluogi Dyfodol Diwastraff

Menter gan Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW) yw Galluogi Dyfodol Diwastraff sy'n rhoi cymorth ymarferol, cadarnhaol a rhagweithiol i brosiectau adeiladu, dymchwel a pheirianneg sifil yng Nghymru. Y nod yw sefydlu os, a sut, y gall y diwydiant adeiladu gyflawni'r targedau diwastraff a osodwyd yn strategaeth wastraff Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff (1).

Mae CEW yn cynnig cyngor technegol, arbenigedd ac arweiniad ar reoli gwastraff i brosiectau sy'n gweithio gyda EZW, ynghyd â chyngor Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM) i helpu i oresgyn unrhyw rwystrau i leihau gwastraff ac i ddylunio ar gyfer dadadeiladu. Mae pob prosiect yn derbyn pecyn pwrpasol wedi'i deilwrio i'w anghenion.

Mae CEW yn gweithio mewn cydweithrediad â'r diwydiant adeiladu i geisio dirnad yn well sut i weithredu'n ddiwastraff. Y nod yw rhannu arferion gorau, atebion a chyfleoedd ynghyd ag adnabod unrhyw rwystrau sy'n gysylltiedig â chyflawni targedau gwastraff Llywodraeth Cymru. Mae CEW yn cynnig cymorth ymarferol i dimau dylunio a thimau safle prosiectau adeiladu i ganfod atebion hyfyw i fod yn ddiwastraff a chyflawni amcanion y cynllun EZW sef;

- Deall a dangos pryd a sut y mae gwastraff yn digwydd yn ystod y broses adeiladu
- Deall y strategaethau, y methodolegau a'r cyfleoedd presennol i osgoi tirlenwi gwastraff a gynhyrchir ar safleoedd
- Dadansoddi pa mor ymarferol / ddichonadwy yw anfon dim gwastraff i'w dirlenwi yn yr amgylchedd presennol
- Gweithio i ddatblygu atebion i atal a chynhyrchu llai o wastraff ar y safle adeiladu gan arwain, yn sgîl hynny, at orfod rheoli llai o wastraff ac at gostau gwaredu a thirlenwi is
- Cefnogi newid ymddygiad a phrosesau sy'n annog atal a lleihau gwastraff
- Gwneud arbedion ar y safle drwy gyfleoedd / atebion rheoli gwastraff
- Lleihau traffig ar y safle drwy gludo llai o wastraff, deunyddiau a chyflenwadau er mwyn gwneud arbedion cost
- Lledaenu atebion a chyfleoedd drwy ddatblygu strategaethau rheoli gwastraff effeithiol
- Cynnig cyfleoedd addysgol a dysgu am dechnegau rheoli gwastraff eraill y gellir eu lledaenu i brosiectau eraill yn y dyfodol gan sicrhau manteision parhaus

2.2 Y Contractwr

Mae John Weaver (Contractors) yn gwmni teuluol sefydledig gyda thros ganrif o arbenigedd mewn adeiladu ac yn cyfuno gwerthoedd traddodiadol cryf o ran crefftwriaeth fedrus â deunyddiau a thechnegau adeiladu modern a rheolaeth fusnes gadarn.

Cwmni â'i ffocws ar y cwsmer yw John Weaver (Contractors) sy'n gwasanaethu prosiectau comisiynu drwy ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf seiliedig ar draddodiad o ansawdd ac am gost gystadleuol. Mae'r cwmni'n ymrwymedig i amcanion Egan (2) gan lwyddo dros flynyddoedd lawer i sefydlu tîm ardderchog o gwmpas yr amcanion hyn. (3)

3 Cefndir y Prosiect

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian yn oriel gelf gyhoeddus yn Abertawe, De Cymru. Mae adfywio a datblygu'r oriel yn rhan o'r Fframwaith Adfywio Cynaliadwy ar gyfer Bae Abertawe.

Mae'r oriel wreiddiol, a adeiladwyd dros gyfnod o ddwy flynedd rhwng 1909 a 1911, yn yr arddull baróc Edwardaidd ac yn adeilad Rhestredig Gradd II* (4). Roedd statws rhestredig yr adeilad yn golygu na ellid newid ei strwythur mewnol gwreiddiol. Cafodd estyniad i'r oriel a godwyd ym 1974 ei gysylltu i'r adeilad gwreiddiol drwy greu linc (5).

Yn 2011 caewyd yr oriel er mwyn dechrau ar y gwaith datblygu ac ailwampio gan gynnwys;

- Dymchwel y linc blaenorol rhwng adeilad 1911 a'r adeilad o'r saithdegau
- Mynedfa a siop newydd ar lefel y stryd
- Ailddylunio estyniad 1974 yr oriel a chodi linc gwydr newydd
- Lifft newydd i roi mynediad llawn i bobl i'r holl arddangosfeydd ac orielau gyda chasgliadau, yn ogystal â'r holl gyfleusterau addysgol ac astudio
- Mwy o le ar gyfer arddangosfeydd a chasgliadau
- Ardal storio a chadwraeth newydd er mwyn gallu datblygu'r casgliadau yn y dyfodol
- Ardaloedd technegol a swyddfeydd gweinyddol newydd
- Adnewyddu'r stiwdio addysg bresennol a chyfleusterau gwell er mwyn gweithio gydag ysgolion, colegau a chyfranogwyr
- Ystafell gymunedol a gofod darlithio newydd
- Llyfrgell ac archif bwrpasol i ymwelwyr gael gwneud ymchwil
- Gofod cymdeithasol newydd gyda lluniaeth a mynediad Wi-fi

Aeth y contractwyr gwreiddiol, Opco Construction, i ddwylo'r gweinyddwyr yn 2013 (6) ar ôl cyflawni peth o'r gwaith dymchwel, gan gynnwys tynnu asbestos allan. Dechreuodd John Weaver ar eu pecyn gwaith ym mis Mawrth 2014, oedd i'w gwblhau erbyn Mawrth 2015. Fodd bynnag, oherwydd problemau ar y safle, cafodd amserlen y prosiect ei hymestyn ac agorodd yr adeilad ym mis Hydref 2016.

Dechreuodd EZW weithio ar y prosiect gyda John Weaver felly rydym wedi sôn am y gwaith a wnaed o dan y contract blaenorol ond heb ei gynnwys yn y ffigurau gwastraff terfynol.

3.1 Cost

Roedd y contract gwreiddiol yn werth £5.3 miliwn a gododd i £6.3 miliwn o ganlyniad i nifer o newidiadau y bu'n rhaid eu gwneud yn ystod y cam adeiladu, ynghyd â gwaith ychwanegol.

4 Methodoleg

Cafodd y cymorth a roddodd EZW i'r safle ei ddarparu drwy:

- Ymweliadau safle ac arweiniad
- Adolygu data ar wastraff
- Adolygu cwmnïau rheoli gwastraff
- Ymweld â chwmni rheoli gwastraff Derwen gyda staff o John Weaver
- Chwilio am opsiynau gwaredu eraill

Cafodd ymweliadau safle i gynorthwyo rheoli'r gwastraff eu cynnal fel rhan o Galluogi Dyfodol Diwastraff, gan gynnwys trafodaethau â thîm y safle i siarad am broblemau safle a gwastraff, y cynnydd oedd yn cael ei wneud, atebion a gwelliannau posib. Rhoddwyd cymorth hefyd i dîm y safle ynghyd ag argymhellion ar reoli gwastraff, gan gynnwys:

- Cadw'r safle'n daclus
- Datblygu sesiynau sgwrsio anffurfiol
- Adolygu deunyddiau oedd dros ben a sut y mae'r cwmni'n delio gyda nhw
- Adolygu'r data ar wastraff a sut y cofnodir gwastraff
- Ffynhonnell arall o ddeunyddiau toi

Cafwyd mai ychydig iawn o gyswllt oedd ei angen â'r prosiect hwn oherwydd daeth yn amlwg fod y cwmni a'r staff yn ymwybodol bod angen lleihau gwastraff, ailddefnyddio deunyddiau a'u bod wedi arfer ag ailddefnyddio adnoddau o safleoedd eraill. Roedd tri rheswm yn bennaf pam fod yr arferion ar y safle wedi eu gerio i fod yn ymwybodol o wastraff:

1. Roedd gan John Weaver reolwr safle a fu'n gweithio drwy gydol y prosiect â'r holl weithwyr i godi ymwybyddiaeth o wastraff a sut i gofnodi data'n gywir ar SMARTWaste
2. Derbyniodd reolwr y safle gefnogaeth sylweddol gan y cynrychiolydd amgylcheddol o John Weaver
3. Mae John Weaver wedi cyfrannu at lawer o brosiectau cadwraeth ac mae'n arfer cyson gan y cwmni storio deunyddiau i'w hailddefnyddio gan ddefnyddio deunyddiau o safleoedd eraill a rheoli unrhyw ormodedd o ddeunyddiau (3)
4. Dim ond ychydig o waith sy'n cael ei isgontractio. Mae gan John Weaver adnodd o weithwyr uniongyrchol. Mae staff y safle wedi gwrando ar y neges i leihau gwastraff gan arwain at arferion da ar y safle a llai o wastraff.

Dangosodd Arup ar y prosiect hwn sut y gallai'r cwsmer ac arddangoswyr ddefnyddio BIM yn effeithiol i adnabod yn hawdd unrhyw ffitiadau trydanol cudd ym mhrif ofodau'r oriel. Y nod oedd y gallai arddangoswyr osod arddangosiadau a ffitiadau ar y wal yn gwbl hyderus na fyddent yn achosi difrod i wasanaethau trydanol na'n creu gwastraff diangen.

Mae'r defnydd hwn o dechnoleg uwch-realiti yn gadael i ddefnyddwyr 'ddelweddu' gwybodaeth fodel ac asedau na fyddai'n bosib ei wneud fel arall. Gall y defnyddiwr pen-draw 'gwestiynu'r' model a chanfod lleoliad unrhyw ffitiadau'n gymharol hawdd. Bydd hyn yn hwyluso dylunio arddangosfa'n ogystal â rheoli a chynnal a chadw'r cyfleusterau.

Aeth John Weaver ar ymweliad safle â chwmni Derwen i weld sut yr oeddent yn delio â'u gwastraff ac yn ei wahanu i leihau faint yr oedd yn mynd i gael ei dirlenwi.

Roedd y gwaith cyfathrebu'n cynnwys diweddaru'n gyson drwy twitter, digwyddiadau diweddaru, gweminarau a chyflwyniadau.

5 Dadansoddiad o Reoli Gwastraff

Contractiwyd tri chwmni i reoli'r gwastraff a gynhyrchwyd gan brosiect Glynn Vivian dros y cyfnod pan oedd EZW yn rhan o'r fenter. Y rhain oedd:

- Derwen Plant Ltd. (Derwen)– Cwmni Cwmpawd Gwyrdd
- Stenor Environmental Services Ltd. (Stenor)
- Peter Davies Agricon Ltd. (Agricon)

Mae'r cynllun Cwmpawd Gwyrdd yn darparu data perfformiad gwastraff wedi'i ddilysu yn erbyn PAS402:2013 Rheoli Adnoddau Gwastraff – y fanyleb ar gyfer adrodd perfformiad.

5.1 Dadansoddiad yn ôl Gwahanol Gamau'r Prosiect

5.1.1 Y Cam Dymchwel

Cynhyrchodd y gwaith dymchwel a wnaed gan Cardiff Demolition 55.5 tunnell o wastraff. Cafodd adeilad y linc ei ddymchwel a'r estyniad o'r saithdegau ei wagu a'i stripio. Cafodd y gwaith ei wneud fel rhan o'r contract gwreiddiol gydag Opco yn Chwefror 2013, cyn i EZW ddechrau gweithio gyda'r prosiect. Oherwydd i'r gwastraff hwn gael ei gynhyrchu cyn i EZW ddechrau gyda'r prosiect o dan gontract gwaith arall, nid yw wedi'i gynnwys yn y ffigurau terfynol.

Cafodd y gwastraff i gyd naill ai ei waredu fel gwastraff pren cymysg neu wastraff cyffredinol. Roedd y gwastraff cymysg yn 28.6 tunnell sef 52% a'r gwastraff cyffredinol yn 26.8 tunnell sef 48%.



Cafodd rywfaint o'r llawr parquet gwreiddiol ei gadw ar y safle a'i roi ar baledi pren er mwyn ei lanhau a'i ailddefnyddio yn yr adeilad newydd. Ni chafodd unrhyw fanylion am gyfraddau ailgylchu eu cynnwys yn yr adroddiad ar y gwastraff dymchwel.

Cynhyrchodd John Weaver lond wyth sgip o wastraff dymchwel ar ôl cymryd drosodd o Opco yn 2014 sef 67.2m^3 a 2.9% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. Cafodd y gwastraff mewn saith allan o'r wyth sgip ei wahanu; chwe sgip anadweithiol a sgip o wastraff bitwminaidd cymysg. Roedd y sgip heb ei gwahanu'n cynnwys cymysgedd 50/50 o ddeunyddiau anadweithiol a bitwminaidd.

Y Cam Dymchwel – John Weaver	
Cyfanswm Gwastraff m^3	67.2
Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	52.6
Wedi osgoi ei dirlenwi %	78.3%*

* Ar sail ffigurau Derwen 2014

Cododd Derwen gyfradd safonol am waredu'r chwe sgip o wastraff anadweithiol. Cododd ffi godi a ffi fesul tunnell ar y ddwy sgip arall. Pe bai'r sgipiau i gyd wedi cael eu dosbarthu fel gwastraff cymysg heb unrhyw wahanu, byddai'r gost o symud y gwastraff wedi bod ddwywaith cymaint, gan arbed mwy na £2400.

5.1.2 Y Cam Tyllu

Y Cam Tyllu	
Cyfanswm m^3	1,279.0
Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	1,279.0
Wedi osgoi ei dirlenwi %	100.0

Yn 2014 cwympodd arglawdd yng nghefn y safle. Arweiniodd hyn at orfod symud pridd a gwastraff anadweithiol sylweddol, 1279.0m^3 i gyd a 54.6% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd.

Defnyddiwyd dau o'r cwmnïau rheoli gwastraff a ddewiswyd yn ystod y cam hwn sef Stenor ac Agricon. Rhyngddynt symudwyd 97 llond cynhwysydd o wastraff tyllu. Roedd maint y cynhwysydd yn amrywio ond fel arfer defnyddiwyd cynhwysydd 20 tunnell.

Cafodd bob cynhwysydd ei archwilio'n weledol gyda chofnodion yn cael eu cadw ar SMARTWaste. Dosbarthwyd y gwastraff i gyd yn ôl codau Dosbarthiadau Gwastraff Ewropeaidd (EWC), fel y gwelir o'r tabl.

Cafodd fwy na hanner y cynhwysyddion oedd yn gadael y safle eu dosbarthu fel rhai pridd a cherrig (17 05 04).

	Nifer y Cynhwysyddion		
Math o Ddeunydd	Agricon	Stenor	Cyfanswm
Concrid (17 01 01)		3	3
Brics (17 01 02)		2	2
Anadweithiol (17 01 07)	4	38	42
Pridd a Cherrig (17 05 04)	35	15	50
Cyfanswm	39	58	97

Mae opsiynau eraill yn lle talu am waredu gwastraff pridd a cherrig. Mae diffiniad Contaminated Land Applications in Real Environments (CL:AIRE) o'r cod ymarfer ar wastraff yn darparu proses glir, gyson ac effeithlon fel y gellir ailddefnyddio deunyddiau a dyllwyd ar y safle neu eu symud rhwng safleoedd i'w hailddefnyddio.

Gellir llunio cytundebau rhwng y safleoedd sy'n trosglwyddo a derbyn y gwastraff i dalu am y gost o symud a chludo'r pridd. Mae hyn yn cynnig ffynhonnell ddeunyddiau gost-effeithiol i'r safle sy'n derbyn y gwastraff ac yn ddull gwaredu yr un mor gost-effeithiol i'r safle sy'n trosglwyddo'r gwastraff. Mae angen profion i sicrhau nad yw'r pridd yn halogedig.

O ystyried na chafodd y ffrwd wastraff hon ei rhagweld, roedd y gost o £19,012.50 yn annisgwyl.

5.1.3 Y Cam Adeiladu

Y Cam Adeiladu	
Cyfanswm m^3	998.0
Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	927.9
Wedi osgoi ei dirlenwi %	93.0

Cynhyrchwyd 998.0m^3 o wastraff fel rhan o'r cam adeiladu, 42.6% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. 2015 a welodd y rhan fwyaf o wastraff y cam adeiladu'n cael ei gynhyrchu, 72.9% o holl wastraff y cam adeiladu.

Llwyddwyd i osgoi tirlenwi 92.3%, 927.9m^3 o wastraff, gyda 66.1%, 659.2m^3, o wastraff yn cael ei ailgylchu a 26.9%, 268.6m^3, yn cael ei anfon i'w adfer ar gyfer ynni. Aeth 7.0% 70.1m^3 i gael ei dirlenwi.

Cafodd 61.9m^3 o wastraff anadweithiol, 6.2% o'r gwastraff adeiladu, ei symud gan Stenor. Proseswyd y rhan fwyaf o'r gwastraff adeiladu gan Derwen sef 936.1m3 a 93.8% o'r gwastraff adeiladu. Dengys Tabl X sut y cafodd y gwastraff adeiladu ei brosesu yn ystod y prosiect gan Derwen.

	Ailgylchu	Adfer	Tirlenwi	Cyfanswm
2014	48.3%	29.9%	21.9%	
	80.4	49.8	36.5	166.7
2015	67.2%	28.1%	4.7%	
	459.4	192.1	32.1	683.7
2016	67.1%	31.2%	1.7%	
	57.5	26.7	1.5	85.7
Cyfanswm	63.8%	28.7%	7.5%	
	597.3	268.6	70.1	936.1

Mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar gyfraddau Derwen ar gyfer 2014-2016 ac nid yn benodol i'r prosiect. Unedau mewn m^3

Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar ddata gwastraff a gofnodwyd gan John Weaver ar SMARTWaste a chyfraddau ailgylchu, adfer a thirlenwi blynyddol cwmni Derwen. Nid ydynt yn gyfraddau ailgylchu, adfer a thirlenwi penodol ar gyfer y prosiect.

Gwastraff pren oedd y ffrwd wastraff fwyaf, yn ôl cyfaint, sef 31.9% o'r holl wastraff adeiladu. Roedd sgip gwastraff pren ar y safle wedi'i gwahanu'n dda a'r gwastraff pren wedi'i bacio'n dynn. Roedd y gwastraff hwn o ganlyniad i;

- Waith helaeth ar do'r adeilad rhestredig Gradd II* – tynnu'r teils concrid, yr estyll pren ac adnewyddu'r trawstiau / distiau pren pydredig
- Creu waliau ffug i guddio'r systemau trydanol – yn unol ag amodau cynllunio Gradd II*
- Paledi – storiwyd y rhain ar y safle a'u defnyddio i storio deunyddiau o gwmpas y safle. Dim ond pan oedd y paledi'n cael eu torri a'u rhoi yn y sgip gwastraff pren yr oeddent yn wastraff.
- Defnyddio bordiau pren i ddiogelu'r gwaith
- Daethpwyd o hyd i bydredd gwlyb yn Hydref 2015 – bu'n rhaid codi'r llawr parquet ar lawr gwaelod yr oriel a thynnu rhai o'r distiau pren allan. Roedd y safle'n sicrhau bod y pren pydredig yn cael ei wahanu a'i roi mewn bag tunnell hyblyg. Hysbyswyd y cwmni rheoli gwastraff o'r pydredd a chafodd y bag ei symud o'r safle gyda'r sgip gwastraff pren.

Roedd y ffrydiau gwastraff sylweddol eraill yn cynnwys anadweithiol 15.5%, cymysg 18.2%, deunyddiau inswleiddio 11.7% a phlasterbord 9%.

Cyn gadael y safle roedd cynnwys y sgipiau gwastraff cymysg yn cael ei gofnodi ar SMARTWaste gan nodi cynnwys y sgip. Roedd staff y safle'n archwilio cynnwys y sgipiau'n rheolaidd drwy fod yn ymwybodol o gostau ychwanegol unrhyw wastraff cymysg ar y safle gan dynnu eitemau fel bocsys cardbord allan i sicrhau gwahanu da. Roedd hyn yn lleihau unrhyw halogi rhwng gwastraff yn y sgipiau.

Oherwydd maint yr ystafelloedd, roedd torion plasterbord yn anochel. Llwyddwyd i leihau unrhyw wastraff plasterbord a chodi ymwybyddiaeth y staff ar y safle. Roedd y torion plasterbord yn cael eu storio ar y safle i leihau gwastraff.

	2014				2015				2016				
Deunydd	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Ch1	Ch2	Ch3	Cyfanswm	% o'r Cyfanswm
Trydanol	0.0	0.0	0.0	0.6	0.6	4.6	2.1	13.2	4.9	0.0	0.0	26.0	2.6%
Gwydr	0.0	0.0	0.0	9.0	6.1	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	15.1	1.5%
Anadweithiol	6.1	0.0	22.6	5.8	18.4	21.1	62.3	7.0	6.1	5.5	0.0	155.1	15.5%
Deunyddiau inswleiddio	0.0	0.0	8.5	0.6	5.2	33.7	48.7	14.7	4.6	1.2	0.0	117.1	11.7%
Metel	0.0	0.0	0.8	0.0	2.8	5.8	6.7	8.3	1.8	0.9	0.0	27.1	2.7%
Cymysg	24.5	0.0	7.9	8.9	15.0	21.7	30.6	41.0	22.3	3.4	6.1	181.4	18.2%
Bitwminaidd eraill	0.0	0.0	0.0	0.0	4.3	0.6	1.2	0.0	0.0	0.0	0.0	6.1	0.6%
Papur a Chardbord	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	1.2	0.9	0.0	2.1	0.2%
Plasterbord	0.0	0.0	0.0	0.0	0.0	22.0	42.9	25.1	0.0	0.0	0.0	90.0	9.0%
Plastig	0.0	0.0	4.1	2.4	2.1	1.5	0.9	1.2	1.5	1.5	0.0	15.4	1.5%
Tecstilau	0.0	0.0	0.3	0.0	0.0	0.0	0.0	12.2	4.6	0.0	0.0	17.1	1.7%
Paent a farnais gwastraff (diberygl)	0.0	0.0	0.0	0.0	0.6	2.8	7.3	12.2	4.3	0.0	0.0	27.2	2.7%
Pren	0.0	45.9	18.4	18.4	24.5	36.7	85.7	73.7	9.8	4.9	0.0	317.9	31.9%
Cyfanswm	30.6	45.9	62.5	45.7	79.6	150.5	288.5	208.7	61.2	18.4	6.1	997.7	
% o'r Cyfanswm	3.1%	4.6%	6.3%	4.6%	8.0%	15.1%	28.9%	20.9%	6.1%	1.8%	0.6%		

Unedau mewn m^3

ORIEL GELF GLYNN VIVIAN

CYRCHFAN PEN DRAW'R GWASTRAFF A SYMUDWYD O'R SAFLE



5.2 Dadansoddiad yn ôl Rhaglen

5.2.1 2014

	Gwastraff yn ôl cyfaint m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi %
Adeiladu	184.7	144.4	78.2
Dymchwel	67.2	52.6	78.2
Tyllu	1279.0	1279.0	100
Cyfanswm	1530.9	1476.0	96.4

Yn 2014 cynhyrchwyd 1530.9m^3 o wastraff. Roedd hyn yn 65.3%, yn ôl cyfaint, o'r holl wastraff a grewyd gan y prosiect.

Yr elfen wastraff fwyaf yn 2014 oedd o ganlyniad i waith tyllu. Roedd y 1279.0m^3 o wastraff a gynhyrchwyd yn 83.5% o'r holl wastraff yn 2014 a 54.6% o holl wastraff y prosiect. Roedd yr holl wastraff hwn yn annisgwyl, ar ôl i arglawdd yng nghefn y safle gwympo. Costiodd symud y deunydd a gwympodd o'r safle £19,012.50, traean o holl gost y gwaith rheoli gwastraff.

Dosbarthwyd llawer o'r gwastraff tyllu fel pridd a cherrig, a allai fod wedi cael ei symud o'r safle heb ei ddosbarthu fel gwastraff. Mae cod ymarfer diffiniad CL:AIRE o wastraff yn cynnig opsiwn arall fel y gellir ailddefnyddio'r deunyddiau a dyllwyd ar safle neu eu symud rhwng safleoedd i'w hailddefnyddio. Gellid bod wedi lleihau'r costau cludo a'u rhannu rhwng safle Glynn Vivian a safle a dderbyniodd y gwastraff, gyda'r safle hwnnw'n elwa o opsiwn arall yn lle gorfod cludo deunydd i mewn o'r newydd.

Yn 2014 roedd lefel uchel o wahanu gwastraff gyda 117 o'r 121 cynhwysydd, 96.7%, wedi eu gwahanu wrth adael y safle. Helpodd hyn i osgoi tirlenwi 96.4% o wastraff, 1476.0m^3, ar gyfer y flwyddyn. Roedd 107 cynhwysydd yn wastraff anadweithiol a'r 10 sgip arall wedi'u gwahanu'n cynnwys gwastraff

Roedd gweddill y gwastraff yn gymysg ac wedi'i symud mewn pedair sgip o wastraff cymysg.

Chwarter	Trydanol	Gwydr	Anadweithiol	Deunydd inswleiddio	Metel	Cymysg	Bitwminaidd arall	Plastig	Tecstilau	Pren	Cyfanswm Terfynol
Ch1	0	0	6.1	0	0	24.5	0	0	0	0	30.6
Ch2	0	0	859.7	0	0	0	0	0	0	45.9	905.6
Ch3	0	0	317.5	8.5	0.8	7.9	0	4.1	0.3	18.4	357.5
Ch4	0.6	9	188.3	0.6	0	8.9	9.2	2.4	0	18.4	237.4
Cyfanswm Terfynol	0.6	9	1371.6	9.1	0.8	41.3	9.2	6.5	0.3	82.7	1531.1

Tabl o'r holl wastraff yn 2014. Unedau m^3

GWASTRAFF MISOL YN ÔL MATH 2014 m^3



ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU

CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

5.2.2 2015

	Gwastraff mewn m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi %
Derwen	683.7	651.6	95.3
Stenor	43.7	43.7	100
Cyfanswm y Gwastraff	727.4	695.3	95.6

Cafodd y rhan fwyaf o gam adeiladu'r prosiect ei gyflawni yn 2015. Cynhyrchwyd 727.4m^3 o wastraff sef 31.0% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd.

Symudodd Derwen 94.0% o wastraff, yn ôl cyfaint, yn 2015. Daeth hyn i gyfanswm o 175.2 o dunelli, 683.7m^3, gyda'r gwaith o'i symud yn gofyn defnyddio 112 o gyfanswm yr 147 o sgipiau a ddefnyddiwyd gan Derwen ar gyfer y prosiect hwn. Roedd y gwahanu'n dda gyda 55 o'r 112 o sgipiau (49%) wedi cael eu gwahanu.

Ym mis Medi cafodd 43.7m^3, 6% o wastraff 2015 ei symud gan Stenor. Cafodd fwy o wastraff anadweithiol (13.1 tunnell) ei gynhyrchu ym mis Mai a gwastraff gypsum (8.5 tunnell) ym mis Medi. Gellir priodoli hyn i'r gwaith tyllu ar gyfer siafft y lifft am y naill a'r gwaith plasterbord am y llall.



	Trydanol	Gwydr	Anadweithiol	Deunydd insiwleiddio	Metel	Cymysg	Bitwminaidd arall	Plasterbord	Plastig	Tecstilau	Gwastraff paent a farnais (diberygl)	Pren	Cyfanswm Terfynol
Ch1	0.6	6.1	18.4	5.2	2.8	15.0	4.3	0.0	2.1	0.0	0.6	24.5	79.6
Ch2	4.6	0.0	21.1	33.7	5.8	21.7	0.6	22.0	1.5	0.0	2.8	36.7	150.5
Ch3	2.1	0.0	62.3	48.7	6.7	30.6	1.2	42.9	0.9	0.0	7.3	85.7	288.5
Ch4	13.2	0.0	7.0	14.7	8.3	41.0	0.0	25.1	1.2	12.2	12.2	73.7	208.7
Cyfanswm Terfynol	20.5	6.1	108.8	102.3	23.6	108.3	6.1	90.0	5.7	12.2	22.9	220.6	727.3

Tabl o'r holl wastraff yn 2015. Unedau m^3

GWASTRAFF MISOL YN ÔL MATH 2015 m^3



ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU

CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

5.2.3 2016

Gwastraff yn ôl cyfaint m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi m^3	Wedi osgoi ei dirlenwi %
85.7	84.2	98.2

Yn 2016 roedd y gwastraff i gyd yn wastraff adeiladu ac wedi ei symud gan Derwen mewn sgipiau gwastraff adeiladu cymysg, 25.2 tunnell i gyd, 85.7m^3. Ni chafodd y gwastraff hwn ei wahanu. Mae'r cofnodion ar SMARTWaste yn cynnwys amcangyfrifon gweledol o'r gwastraff yn y 18 sgip a ddefnyddiwyd;

Deunydd	Cyfaint m^3	Canran
Anadweithiol	11.6	13.5%
Pren	14.7	17.2%
Metel	2.8	3.3%
Deunydd inswleiddio	5.8	6.8%
Plastig	3.1	3.6%
Papur a Chardbord	2.1	2.5%
Cymysg	31.8	37.1%
Tecstilau	4.6	5.4%
Gwastraff paent a farnais (diberygl)	4.3	5.0%
Trydanol	4.9	5.7%

Table of waste streams 2016

Gwaith gorffen yn bennaf oedd y gwaith a wnaed yn 2016 ynghyd â gwaith ychwanegol ar gais y cwsmer. Mae gwaith ychwanegol, a gweithgareddau heb eu cynllunio, yn creu problemau wrth flaengynllunio rheoli gwastraff. Ni all contractwyr ragweld pa ffrydiau gwastraff fydd yn cael eu cynhyrchu ac mae'n arwain yn aml at atebion ad hoc sy'n dibynnu ar sgipiau gwastraff cymysg. Yn yr achos hwn, roedd lle hefyd yn broblem, gyda lle i ddim ond un sgip ar y safle.

Diffiniad Cod Ymarfer EWC	Canran
Pecynnu	23.6%
Gwastraff Dinesig arall	23.2%
Pren, gwydr a phlastig	14.6%
Concrid, brics, teils a cerameg	13.2%
Deunyddiau inswleiddio ac adeiladu eraill yn cynnwys asbestos	6.8%
Cyfarpar trydanol	5.7%
Tecstiliau	5.4%
Gwastraff Paent	5.0%
Metelau	2.1%
Pridd	0.4%

Table of waste by EWC code 2016

Yr hyn y gallwn ei weld o'r tabl uchod yw mai gwastraff pecynnu a dinesig oedd y rhan fwyaf o'r gwastraff yn ôl cyfaint yn 2016, sef 46.8%. Tynnwyd sylw EZW dro ar ôl tro at y broblem o or-becynnu ar safleoedd adeiladu ac anogir cyflenwyr i becynnu llai lle medrant.

Mae'r gwastraff o swyddfeydd a ffreutur y safle hefyd wedi cael sylw gyda chasgliadau gwastraff ffreutur yn cael eu treialu yn Nhorfaen a Cheredigion fel rhan o brosiectau EZW eraill. Mae'r treialon hyn wedi cynnwys gwahanu gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu yn swyddfeydd a ffreutur y safle. Roedd y gwastraff yna'n cael ei gasglu drwy gasgliadau dinesig lleol y cynghorau.

Roedd y diffyg gwahanu gwastraff ar y safle, oedd yn arwain at gymysgu ac mae'n debyg at halogi deunyddiau ailgylchu, wedi trosglwyddo'r cyfrifoldeb am ailgylchu i'r cwmni rheoli gwastraff. Roedd y cyfraddau osgoi tirlenwi gan gyfleusterau rheoli gwastraff Derwen yn 2016 yn uchel, gyda dim ond 1.74% o'r gwastraff a broseswyd yn mynd i'w dirlenwi. Mae'r llwyddiant hwn yn trosi'n dda o'i gymhwyso ar gyfer y prosiect hwn gyda dim ond 1.5m^3 o wastraff yn mynd i'w dirlenwi. Fodd bynnag llwyddwyd i wneud hyn nid oherwydd ymdrechion nac arferion y safle ond oherwydd llwyddiant arferion Derwen.

Cafodd 57.5m^3 67.1% o'r gwastraff ei ailgylchu a 26.7m^3 31.2% ei anfon i'w adfer ar gyfer ynni.

GWASTRAFF MISOL YN ÔL MATH 2016 m^3



ADEILADU ARBENIGRWYDD YNG NGHYMRU

CONSTRUCTING EXCELLENCE IN WALES

5.3 Dadansoddiad yn ôl Opsiwn Rheoli Gwastraff

5.3.1 Atal

Cyfanswm yr arbedion cost drwy atal oedd £25,270.

Roedd y prosiect yn golygu cadw'r adeilad Gradd II* gwreiddiol a wnaed gyda'r bwriad o gadw cymaint o'r nodweddion gwreiddiol â phosib. Roedd hyn yn cynnwys:

Fframiau Ffenestri – cafodd 20 o'r fframiau ffenestri eu hadfer ar y safle ac anfonwyd pump arall i'w hadfer oddi ar y safle. Amcangyfrifiwyd y byddai hyn wedi bod yn ddwy dunnell o wastraff pren ac wedi costio £267 i'w waredu. Byddai ffenestri newydd wedi costio dros £25,000 ar sail £1,000 am bob ffenestr newydd yn yr un arddull baróc Edwardaidd â'r gwreiddiol.

Cyfanswm = tua £25,270

Coed a distiau / trawstiau to – cafodd waith trwsio ei wneud ar ddistiau'r to. Atgyweiriwyd y distiau oedd mewn cyflwr da ac ailddefnyddiwyd unrhyw ddarnau y gellid eu hailddefnyddio, lle'r oedd hynny'n ymarferol.

5.3.2 Ailddefnyddio

Daeth yr arbedion mesuradwy drwy ailddefnyddio i £57,194.

Roedd y prosiect yn cynnwys llawer iawn o waith cadwraeth. O'r herwydd cafwyd fod John Weaver wedi arfer â chadw ac nid gwaredu deunyddiau, lle gellid eu hailddefnyddio. Cafwyd fod tîm y safle'n ailddefnyddio deunyddiau'n rheolaidd i leihau gwastraff a'i fod hefyd yn rhan o'r brîff y dylid cadw cymaint â phosib o'r adeilad gwreiddiol.

Dyma rai enghreifftiau o ailddefnyddio;

1. Brics – Cafodd gwastraff brics a gynhyrchwyd wrth greu agoriadau newydd yn yr adeilad eu storio ar baledi a'u cadw ar y safle i'w hailddefnyddio neu yn lle brics oedd wedi malu. Amcangyfrifwyd fod hyn wedi atal 2.5 tunnell o wastraff brics. Byddai gwaredu 2.5 tunnell o wastraff (brics) anadweithiol wedi costio £144.
2. Llawr parquet – storiwyd 14 paled o lawr parquet derw ar gyfer eu glanhau a'u hailddefnyddio. Amcangyfrifwyd fod hyn wedi atal 12 tunnell o wastraff pren. Byddai gwaredu'r pren hwn wedi costio £1,542 ar sail ffi fesul tunnell o wastraff pren a ffi am godi bob sgip. Mae hyn yn tybio 1.15 tunnell fesul sgip ar sail llond sgip gyfartalog o wastraff pren. Byddai llawr parquet derw newydd, am £60 y m2, wedi costio tua £55,500 yn ychwanegol. Cyfanswm = tua £57.050.
3. Codwyd y bordiau ar gyfer y safle gan isgontractwyr a wnaeth hefyd eu tynnu i lawr gyda'r bwriad o'u hailddefnyddio ar safle arall.
4. Defnyddiwyd bordiau pren i ddiogelu peth o'r bensaernïaeth yn yr hen adeilad. Cawsant eu hailddefnyddio wedyn fel patresi, fframiau platfform ac estyll allanol.
5. Coed a distiau / trawstiau'r to – cafodd waith trwsio ei wneud ar ddistiau'r to. Cafodd y distiau mewn cyflwr da eu trwsio ac ailddefnyddiwyd unrhyw ddarnau y gellid eu hailddefnyddio, lle'r oedd hynny'n ymarferol.

5.3.3 Ailgylchu

Cyfanswm y gyfradd ailgylchu ar gyfer y prosiect hwn oedd 82.9%, gyda'r arferion ailgylchu'n arbed £310,244.

Gwnaed darpariaeth ar gyfer ailgylchu ar y safle gyda gwahanu'n cael ei annog ar gyfer gwastraff pren, plasterbord, gwydr, cardbord a gwastraff cymysg. Cafodd 181 o'r 258 o gynwysyddion (70.2%) a adawodd y safle eu gwahanu, gan hwyluso eu hailgylchu wedyn gan y cwmnïau rheoli gwastraff a helpu i gadw gwerth y deunyddiau ailgylchu.

Storiwyd rhai mathau o ddeunyddiau ar wahân ar y safle cyn eu cludo i iard John Weaver i gywasgu'r deunyddiau ailgylchu er mwyn sicrhau ailgylchu cost-effeithiol. Cafodd 11 o dripiau cludo eu gwneud i gywasgu 12.1 tunnell o wastraff a Derwen yn gyrchfan derfynol i'r holl wastraff.

- 9 o sgipiau plasterbord – 11.4 tunnell
- 1 sgip gymysg– 0.7 tunnell (10% Anadweithiol, 75% Inswleiddio, 15% Ffreutur / Swyddfeydd)

Cafodd y platwydr ei dynnu'n ofalus wrth adeiladu'r to. Fel gwastraff, cafodd ei gadw ar wahân a'i gludo'n uniongyrchol i GlassTech Recycling yn ôl y trefniant gyda Derwen. Ar y pryd byddai GlassTech wedi allforio'r gwastraff hwn i Bortiwgal i gael ei drin ymhellach neu ei lawrgylchu'n ddeunydd inswleiddio. O ganlyniad i welliannau diweddar i systemau GlassTech, bydd yn awr yn mynd i gael ei aildoddi.

- 1 sgip wydr – 2.07 tunnell

Llwyddodd ailgylchu'r gwastraff anadweithiol drwy sgipiau wedi'u gwahanu, a symudwyd gan Stenor ac Agricon, i osgoi tirlenwi 1279m^3 o wastraff anadweithiol. Costiodd hyn £19,012.50 i gael ei symud mewn 98 o wagenni 20 tunnell ond gallai fod wedi costio tua £240,000 a TAW ar ben hynny i'w waredu mewn sgipiau gwastraff cymysg. Llwyddodd hyn i arbed £271,000 ar sail £115 y dunnell a 325 o ffioedd codi sgip £50 yr un.

Os cymerwn na fyddai dim gwahanu wedi'i wneud ar gyfer ailgylchu, a chymhwyso ffioedd sgipiau gwastraff cymysg i'r holl wastraff, byddai'r gost o waredu'r gwastraff hwn i Derwen wedi bod tua £47,000. Y gost wirioneddol oedd £37,774.44. Roedd yr arbedion felly'n fwy na £9225 20.0% drwy gwahanu ar y safle ar gyfer ailgylchu.

5.3.3.1 Derwen

Cofnododd Derwen gyfraddau ailgylchu o 48.3% yn 2014, gan godi i 67.2% yn 2015 a 67.1% yn 2016. Mae'r cyfraddau hyn yn awgrymu bod 171 tunnell, 62.0% o'r 275.8 o dunelli o wastraff a broseswyd gan Derwen, wedi cael ei ailgylchu. O'i ddadansoddi fesul blwyddyn;

Blwyddyn	Cyfradd Ailgylchu	Tunelli a ailgylchwyd
2014	48.3%	36
2015	67.2%	118
2016	67.1%	17

5.3.3.2 Stenor Environmental Services

Yn 2014 symudodd Stenor Environmental Services (Stenor), a leolir yn Abertawe, wastraff tyllu a gwaith pridd. Crëwyd y gwastraff hwn ar ôl i arglawdd yng nghefn y safle gwympo. Cafodd y gwastraff ei sgrinio a'i wahanu gan Stenor gan lwyddo i adfer 100% o'r gwastraff.

Symudwyd 60 llwyth mewn wagenni 20 tunnell gyda'r cynnwys wedi'i gofnodi ar SMARTWaste fel;

- Concrid 3 wagen
- Brics 2 wagen
- Cerrig 1 wagen
- Anadweithiol 40 wagen
- Pridd 14 wagen

Ym mis Medi 2015 yn ystod y cam adeiladu, symudodd Stenor dair wagen 16 tunnell o wastraff anadweithiol o'r safle.

5.3.3.3 Peter Davis Agricon Ltd.

Yn 2014 symudodd Peter Davis Agricon Ltd. (Agricon), a leolir yn Abertawe, 39 cynhwysydd o wastraff pridd ac anadweithiol ar ôl i arglawdd yng nghefn y safle gwympo. Cafodd y gwastraff ei sgrinio a'i wahanu gan Agricon gan lwyddo i adfer 100% ohono.

5.3.4 Adfer ar gyfer Ynni

Mae Derwen yn trosi gwastraff dros ben yn danwydd. Y cyfraddau dros y cyfnod hwn oedd;

Blwyddyn	Cyfradd Adennill Ynni	Tunelli a adenillwyd
2014	29.9%	64.4
2015	28.1%	192.1
2016	31.2%	26.7

Drwy gymhwyso'r cyfraddau hyn i'r 984.8m^3 o wastraff a symudodd gwmni Derwen ar gyfer y prosiect hwn, awgrymir bod 283.3m^3, 30.3% wedi'i anfon i'w adfer ar gyfer ynni.

Canran yr holl wastraff a gynhyrchwyd ac a anfonwyd i'w adfer ar gyfer ynni felly = 12.1%

5.3.5 Tirlenwi

Y cyfraddau tirlenwi ar gyfer Derwen oedd;

Blwyddyn	Cyfradd Tirlenwi	Tunelli a yrrwyd i safle tirlenwi
2014	21.9%	215.5
2015	4.7%	683.7
2016	1.74%	85.7

Drwy gymhwyso'r cyfraddau hyn i'r 984.8m^3 o wastraff a symudodd gwmni Derwen ar gyfer y prosiect hwn, awgrymir bod 80.8m^3, 8.2% wedi'i anfon i'w dirlenwi.

Ni chofnodwyd fod unrhyw wastraff arall wedi mynd i'w dirlenwi.

Canran yr holl wastraff a anfonwyd i'w dirlenwi felly = 3.4%



5.4 Dadansoddiad yn ôl y Math o Ddeunydd

Mae'r adran yma'n seiliedig ar gyfaint y gwastraff yn ôl y math o ddeunydd, o'i gofnodi ar SMARTWaste gan dîm y safle.

5.4.1 Anadweithiol

Symudwyd y gwastraff anadweithiol o safle Glynn Vivian mewn 114 o gynwysyddion wedi'u gwahanu gan dri chontractwr gwastraff sef Derwen, Stenor ac Agricon. Roedd maint y cynwysyddion yn amrywio o wagenni 20 tunnell i sgipiau 8 iard. Roedd dosbarthiad y gwastraff anadweithiol yn cynnwys;

- Concrid 66.3m^3 4.4%
- Brics 50.8m^3 3.4%
- Teils a cerameg 13.2m^3 0.9%
- Pridd a cherrig 470.0m^3 31.5%
- Cymysgedd 891.8m^3 59.8%

Cynhyrchwyd gwastraff anadweithiol drwy gydol y prosiect yn enwedig ym mis Mai / Mehefin 2014, Hydref 2014 ac eto ym mis Medi 2015. Y cyfanswm oedd 1492.0m^3, 63.7% o holl wastraff y prosiect.

Roedd y defnydd trwm ym mis Mai / Mehefin o ganlyniad i wastraff o'r cam tyllu. Arweiniodd arglawdd a gwympodd yng nghefn y safle at ffrwd wastraff annisgwyl yn cynnwys concrid, pridd a cherrig, brics a gwastraff anadweithiol. Dosbarthwyd y rhan fwyaf o'r gwastraff naill ai fel pridd a cherrig neu wastraff anadweithiol. Symudwyd y gwastraff hwn gan Stenor ac Agricon mewn wagenni 20 tunnell yn bennaf. Roedd cost y gwastraff annisgwyl hwn a'r costau cludo'n £19,012.50.

Roedd y gost symud gan Derwen yn gost am symud 50.9 tunnell o wastraff anadweithiol mewn 11 o gynwysyddion. Cododd Derwen gyfradd safonol fesul sgip am yr 11 cynhwysydd hwn. Pe bai'r gyfradd codi gwastraff cymysg a ffi fesul tunnell wedi eu cymhwyso, byddai'r gwaith gwaredu wedi costio pum gwaith mwy.

Dosbarthwyd llawer o'r gwastraff anadweithiol fel pridd a cherrig, a allai fod wedi cael ei symud o'r safle heb ei ddosbarthu fel gwastraff. Mae cod ymarfer diffiniad CL:AIRE o wastraff yn cynnig opsiwn arall fel y gellir ailddefnyddio deunyddiau a dyllir ar safle neu eu symud rhwng safleoedd i'w hailddefnyddio. Gellid bod wedi lleihau'r costau cludo a'u rhannu rhwng safle Glynn Vivian a'r safle a dderbyniodd y gwastraff, gyda'r safle hwnnw'n elwa o opsiwn arall yn lle gorfod cludo deunydd i mewn o'r newydd.

5.4.2 Pren

Cyfanswm y gwastraff pren o'r prosiect oedd 317.9m^3, 13.6% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd ar gyfer y prosiect hwn. Cafwyd dau gyfnod sylweddol o gynhyrchu gwastraff pren yn ystod y prosiect, ym Mai 2014 a Thachwedd 2015.

Crewyd gwastraff pren yn ystod y gwaith ar y to gan seiri coed John Weaver. Cafodd y teils concrid a'r estyll pren eu tynnu a'r distiau pren pydredig eu hadnewyddu. Cafodd distiau'r to oedd mewn cyflwr da eu trwsio ac ailddefnyddiwyd unrhyw ddarnau y gellid eu hailddefnyddio, lle'r oedd hynny'n ymarferol. Roedd sgip gwastraff pren yn rhan o gompownd gwastraff y safle lle'r oedd y gwahanu'n dda a'r sgip yn cael ei phacio'n dynn.

Storiwyd y paledi ar y safle a defnyddiwyd hwynt i storio deunyddiau o gwmpas y safle. Cawsant hefyd eu symud i safleoedd eraill i'w defnyddio mewn modd tebyg. Ystyriwyd y paledi i fod yn wastraff dim ond pan gawsant eu malu ac yna cawsant eu taflu i'r sgip gwastraff pren.

Bu'n rhaid codi'r llawr parquet ar lawr gwaelod yr oriel ynghyd â rhai distiau pren ar ôl darganfod pydredd gwlyb ym mis Hydref 2015. Roedd tîm y safle'n gwneud yn siŵr bod y pren pydredig yn cael ei wahanu a'i roi mewn bagiau tunnell hyblyg (FIBC). Cysylltwyd â'r cwmni rheoli gwastraff i'w hysbysu o'r pydredd a chafodd y bagiau eu symud o'r safle ar yr un pryd â'r sgip gwastraff pren.

Cafodd 14 paled o lawr parquet ei adfer, storio, glanhau a'i ailddefnyddio ar y safle. Gan atal tua 12 tunnell o wastraff pren. Yn yr un modd cafodd 20 o'r fframiau ffenestri eu hadfer ar y safle ac anfonwyd pump arall i gael eu hadfer oddi ar y safle. Amcangyfrifir y byddai hyn wedi creu dwy dunnell o wastraff pren. Dyma enghreifftiau eraill o osgoi gwaredu drwy ailddefnyddio;

- Codwyd y bordiau ar gyfer y safle gan isgontractwyr a ddaeth yno hefyd i'w tynnu i lawr gyda'r bwriad o'u hailddefnyddio ar safle arall.
- Defnyddiwyd bordiau pren i ddiogelu peth o'r bensaernïaeth yn yr hen adeilad. Cawsant eu hailddefnyddio wedyn fel patresi, fframiau platfform ac estyll allanol.

Llwyddwyd i osgoi tua 20 tunnell o wastraff drwy ailddefnyddio gan arbed tua 17 sgip o wastraff (ar sail 1.15 tunnell ar gyfartaledd o wastraff pren i bob sgip gwastraff pren). Llwyddodd hyn i arbed £3780 pe bai wedi'i waredu fel gwastraff cymysg neu £2500 fel gwastraff pren. 38.0% am y naill a 57.5% am y llall yn ychwanegol ar ben y costau gwaredu pren gwirioneddol.

Roedd costau Derwen am symud y gwastraff pren yn seiliedig ar gyfradd fesul tunnell a ffi codi sgip. Y gyfradd fesul tunnell oedd 53.6% o'r gyfradd gwastraff cymysg gan arbed 21.1% ar ben y costau a arbedwyd drwy ailddefnyddio. Byddai gwaredu gwastraff pren wedi bod 110% yn ddrytach heb yr enghreifftiau o ailddefnyddio a gwahanu gwastraff yma.

5.4.3 Plasterbord

Cynhyrchwyd 90.0m^3 o wastraff plasterbord, 13.2 tunnell i gyd. Roedd yna'n cael ei symud o'r safle gan Derwen. Mae'n cyfateb i 9.0% o'r gwastraff adeiladu a 3.8% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. Cynhyrchwyd y gwastraff gan waith a wnaed rhwng Mai a Rhagfyr 2015 gyda'r gwastraff mwyaf o 24.5m^3 ym mis Medi.

Oherwydd dimensiynau'r ystafelloedd yn yr adeilad presennol roedd peth gwastraff torion plasterbord yn anochel. Codwyd ymwybyddiaeth o wastraff plasterbord gyda'r staff ar y safle gan lwyddo i'w leihau cymaint ag yr oedd modd. Er enghraifft, cafwyd fod torion plasterbord yn cael eu storio ar y safle i'w defnyddio lle'r oedd hynny'n ymarferol, gan leihau gwastraff.

Roedd natur gyfyng y safle'n golygu nad oedd lle i sgip plasterbord bwrpasol yn ystod y gwaith plasterbordio. Storiwyd y gwastraff plasterbord o gwmpas y safle mewn bagiau tunnell gyda John Weaver yna'n eu cludo'n ôl i'w iard ar gyfer cywasgu'r gwastraff plasterbord.

Cafodd naw cynhwysydd plasterbord o amrywiol faint eu cludo i iard John Weaver. Roedd hyn yn gyfanswm o 11.4 tunnell o wastraff plasterbord oedd yna'n cael ei gywasgu er mwyn ei waredu'n fwy cost-effeithiol.

Roedd costau Derwen o waredu gypsum yn 26.1% yn rhatach y dunnell na'i waredu fel gwastraff cymysg.

5.4.4 Inswleiddio

Cynhyrchodd y prosiect 117.1m^3 o wastraff inswleiddio sef 11.7% o'r holl wastraff adeiladu a 5.0% o'r holl wastraff a gynhyrchwyd. Cafodd ei gynhyrchu rhwng Mehefin 2014 a Mehefin 2016 ar ffurf 'llinell amser gromen' gyda'r gwastraff mwyaf ym mis Gorffennaf 2015.

Aethpwyd â pheth o'r gwastraff inswleiddio, 0.53 tunnell, i iard John Weaver i'w gywasgu er mwyn ei waredu'n fwy cost-effeithiol. Derwen oedd y gyrchfan derfynol ar gyfer y gwastraff hwn. Cafodd y gwastraff inswleiddio ei waredu mewn sgipiau gwastraff cymysg am y gost uchaf a godir gan Derwen.

5.4.5 Cymysg

Cynhyrchwyd gwastraff cymysg drwy gydol y prosiect. Cyrhaeddodd y gwastraff hwn ei anterth ym mis Tachwedd 2015 cyn gostwng eto yn 2016. Cofnodwyd 181.4m^3 o wastraff cymysg, 18.2% o'r gwastraff adeiladu a 7.7% o'r holl wastraff.

Roedd staff y safle'n archwilio cynnwys y sgip gwastraff cymysg yn gyson drwy fod yn ymwybodol o gost gwastraff ar y safle. Roeddent yn tynnu allan eitemau fel bocsys cardbord i sicrhau gwahanu da ac i leihau unrhyw halogi o fewn y sgipiau ar y safle.

Roedd sgipiau gwastraff cymysg yno drwy gydol y prosiect a chwmni Derwen yn gyfrifol am eu symud o'r safle. Cyn gadael y safle roedd cynnwys pob sgip gwastraff cymysg yn cael ei amcangyfrif a'i gofnodi ar SMARTWaste. Roedd peth o'r cynnwys a gofnodwyd yn wastraff swyddfa oedd yn isel iawn ar y safle ond nid yn cael ei gasglu ar wahân.

5.4.6 Gwastraff Swyddfeydd a Ffreutur

Roedd cynnydd cyson yn y gwastraff swyddfeydd a ffreutur hyd at fis Tachwedd 2015 cyn gostwng wrth i nifer y staff ar y safle ostwng. Cyd-ddigwyddodd y lleihad yn y gwastraff wrth i wastraff y ffreutur ddod yn ganran sylweddol o'r gwastraff misol. Er enghraifft dosbarthwyd 18% o'r gwastraff ym Mehefin 2016 fel gwastraff ffreutur / swyddfa.

Yn aml iawn, mae gwastraff ffreutur a swyddfa ar safle'n cael ei gymysgu â gwastraff bwyd gan halogi deunyddiau ailgylchu fel mai tirlenwi yw'r unig opsiwn gwaredu ymarferol. Dangosodd dreialon gan EZW yn Nhorfaen a Cheredigion fod opsiwn gwaredu arall yn bosib. Casglwyd y gwastraff ffreutur a swyddfa fel rhan o gasgliadau gwastraff dinesig rheolaidd y cyngor, am ffi gymharol isel. Roedd hyn yn cynnwys casgliadau gwastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu.

Roedd defnyddio casgliadau dinesig y cyngor yn Nhorfaen a Cheredigion yn annog gwahanu'r bwyd gwastraff a'r deunyddiau ailgylchu. Llwyddodd hyn i gadw gwerth y deunyddiau ailgylchu drwy atal eu halogi gan hefyd ganiatáu i'r gwastraff bwyd gael ei waredu drwy dreulio anaerobig yn hytrach na thirlenwi.

Mae'r manteision yn cynnwys:

- Osgoi tirlenwi mwy o wastraff bwyd a deunyddiau ailgylchu
- Llai o gasgliadau sgipiau gwastraff cymysg o safleoedd adeiladu; gan leihau nifer y lorïau sy'n gysylltiedig â safleoedd adeiladu
- Sgipiau cymysg yn pwyso llai gan leihau'r costau gwaredu gwastraff
- Mwy o ailgylchu
- Mwy o ddeunyddiau ar gyfer cyfleusterau treulio anaerobig

Y gobaith yw lledaenu'r treialon hyn ar draws Cymru.

5.4.7 Deunyddiau Toi

Roedd y gofynion cadwraeth ar gyfer to'r adeilad gwreiddiol yn cynnwys tynnu'r teils concrid oddi ar y to presennol cyn mynd ati i atgyweirio'r to. Cafodd yr estyll pren eu tynnu oherwydd bod angen rhai newydd ac atgyweiriwyd distiau'r to cymaint ag y bo'n bosib gan dynnu unrhyw bren pydredig. Cafodd y teils concrid eu hadnewyddu gyda llechi.

Tynnwyd y teils concrid yn ofalus a'u storio ar baledi oherwydd roedd rhai mewn cyflwr da. Cafodd teils oedd wedi torri eu gwaredu yn y sgip anadweithiol. Gwnaed ymholiadau gyda chyfleusterau ailddefnyddio lleol a chwmnïau darnau pensaernïol ail-law. Yn anffodus, oherwydd nad oedd y teils o ansawdd da nid oedd galw amdanynt. Cafodd teils y to eu dosbarthu i unrhyw un a allai wneud defnydd ohonynt, fel arfer aelodau o'r cyhoedd oedd eisiau ychydig o deils i wneud gwaith atgyweirio ar eu cartrefi.

Roedd rhan o'r to'n wydr fel y gallai golau naturiol ddod i mewn i'r adeilad. Roedd angen ei dynnu a'i adnewyddu gyda gwydr newydd. Cafodd y gwydr ei dynnu'n ofalus a'i gadw ar wahân i'r gwastraff arall. Cafodd yna ei symud yn syth i'r cwmni ailgylchu gwydr GlassTech a fyddai wedi allforio'r gwastraff i Bortiwgal ar gyfer ei drin ymhellach neu ei lawrgylchu'n ddeunydd inswleiddio. Fodd bynnag, o ganlyniad i welliannau diweddar i systemau GlassTech bydd yn awr yn mynd i gael ei ailddoddi.

5.5 Dadansoddiad yn ôl Cost

5.5.1 Y Costau Rheoli Gwastraff Gwirioneddol

Ar gyfer y prosiect cyfan trefnodd John Weaver i symud 258 cynhwysydd o wastraff o'r safle. Roedd 151 (58.5%) o'r cam adeiladu, naw (3.5%) o'r cam dymchwel a 97 (38.0%) o'r cam tyllu.



Cyfanswm Costau Derwen =	£37,774.44
Cyfanswm Costau Stenor ac Agricon =	£19,012.50
Cyfanswm Costau Rheoli Gwastraff =	£56,786.94

Roedd y sgipiau gwastraff cymysg yn cyfrif am 47.0% o'r costau rheoli gwastraff ond dim ond traean o'r holl sgipiau. Cyfrannodd y casgliadau gwastraff cymysg 14% yn ychwanegol at y costau felly o'i gymharu â chynwysyddion eraill.

5.5.2 Y Costau Rheoli Gwastraff Posib

Heb ystyried yr hierarchaeth wastraff, gallai'r costau rheoli gwastraff fod wedi bod dros £400,464. Mae'r gost bosib yma'n seiliedig ar beidio â gwahanu gwastraff a gwaredu'r holl wastraff ar sail cyfraddau sgipiau gwastraff cymysg. Mae hefyd yn cyfrif am gostau ychwanegol a fyddai wedi cael eu hachosi heb atal neu ailddefnyddio'r gwastraff. Rhoddir y manylion yn adran 5.3.

Cyfanswm yr arbedion cost drwy atal =	£ 25,270
Yr arbedion mesuradwy drwy ailddefnyddio =	£ 57,194
Drwy wahanu'r gwastraff ar gyfer ailgylchu, gwnaed arbedion o =	£318,000
Cyfanswm =	**£400,464**

Gellid bod wedi gwario bron i saith gwaith yn fwy na'r gost rheoli gwastraff wirioneddol ar y prosiect hwn. Gwnaed arbedion o dros £400,000.

5.6 Dadansoddiad yn erbyn Meincnodau

Mae data ar wastraff ar gael yn y system SMARTWaste ar gyfer cannoedd o brosiectau a gwblhawyd yng Nghymru. Gall prosiectau adrodd ar sail cyfaint neu dunelli o wastraff ar gyfer amrywiaeth eang o wahanol fathau o brosiectau. Dadansoddwyd y data i greu dangosyddion perfformiad ar gyfer y gwastraff a gynhyrchwyd am bob £100k a phob 100m2 ar gyfer cyfaint a / neu dunelli o wastraff a gynhyrchwyd.

Yma cymharir perfformiad y cam adeiladu â meincnod SMARTWaste ar gyfer adeilad cyhoeddus.

Mae BREEAM (BRE Environmental Assessment Method) yn ddull asesu amgylcheddol a ddefnyddir yn eang ar gyfer adeiladau a chymunedau. Mae'n rhoi sylw i faterion amgylcheddol a chynaliadwyedd gyda chredydau'n cael eu defnyddio fel rhan o'r meini prawf asesu.

5.6.1 SMARTWaste

	Data o'r Cam Adeiladu	Meincnod SMARTWaste*	Cymhariaeth
$m^3/100m^2$	21.2	21.7***	-3.3%
$m^3/£100k$	15.8	21.1**	-25.1%

*ar gyfer adeilad cyhoeddus
**ar sail deg prosiect
***ar sail wyth prosiect

Mae prosiectau adeiladau cyhoeddus newydd ar SMARTWaste yn 21.7m3/100m2 a 21.1m3/£100k ar gyfartaledd. Cyflawnodd gam adeiladu prosiect Glynn Vivian 21.2m3/100m2 a 15.8m3/£100k. Mae'r canlyniadau hyn yn golygu bod y prosiect yn 3.3% llai gwastraffus am y naill, a 25.1% llai gwastraffus am y llall na'r meincnodau sefydledig.

5.6.2 BREEAM

	Data o'r Cam Adeiladu	1 credyd	2 credyd	3 credyd	Enghreifftiol
$m^3/100m^2$	21.2	<13.3	<7.5	<3.4	<1.6

Cyflawnodd brosiect Glynn Vivian 21.2m3/100m2 o wastraff dros y cam adeiladu. Roedd hyn yn 1.6 gwaith y cyfaint oedd ei angen i ennill credyd BREEAM.

6 Modelu

6.1 Modelu Gwybodaeth Adeiladu (BIM)

Caiff ei gydnabod yn eang yn y sector amgylchedd adeiledig fod trosi darluniau'n adeilad ar y ddaear yn aml yn achosi gwrthdaro annisgwyl, yn enwedig gyda chysylltiadau cymhleth a gwasanaethau mecanyddol a thrydanol. Mae'n arfer cyffredin i unrhyw wrthdaro gael ei ddatrys yn adweithiol ar y safle, gan wastraffu deunyddiau ac amser yn aml. Drwy ddefnyddio meddalwedd, nod BIM yw dileu'r gwastraff hwn.

Fodd bynnag mae BIM yn ymwneud yn gymaint â phobl a phroses ag â meddalwedd, gan roi cyfle i fod yn fwy effeithlon a hefyd i fabwysiadu dulliau gweithio gwell. Mae'r dull cydweithredol sydd ei angen i greu dyluniad effeithiol drwy BIM yn sicrhau bod gwybodaeth yn llifo'n gyson rhwng y gwahanol grefftwyr. Mae BIM yn golygu bod y gweithredwyr yn gallu delweddu mewnbwn ei gilydd gan annog cyd-ddealltwriaeth a pherthynas weithio dda.

6.2 Defnyddio BIM yn Glynn Vivian

Roedd y ffaith bod yr oriel Edwardaidd wreiddiol yn adeilad rhestredig Gradd II* wedi cyfyngu ar ddatblygu'r adeilad. Nid oedd modd newid ei strwythur gwreiddiol mewnol. Defnyddiwyd waliau ffug i guddio'r systemau trydanol gan roi gofod newydd dirwystr ar y wal ar gyfer arddangoswyr.

Dangosodd Arup sut y gallai'r cwsmer ac arddangoswyr ddefnyddio BIM i adnabod yn hawdd unrhyw ffitiadau trydanol cudd ym mhrif ofodau'r oriel. Y nod oedd y gallai arddangoswyr osod arddangosiadau a ffitiadau ar y wal yn gwbl hyderus na fyddent yn achosi difrod i wasanaethau trydanol drwy wneud hynny.

6.2.1 Paratoi'r Model

Ar gyfer y prosiect hwn defnyddiodd Arup (7) "Matterport" sef sganiwr symudol yn cynnwys camera a synwyryddion 3D sy'n troi 360 gradd ar ben treipod pum troedfedd. Mae'r camera ac amrediad o synwyryddion 2D a 3D yn cylchdroi i greu darlun o edrychiad a dimensiynau'r gofod.

LiDAR oedd y dechnoleg synhwyro a ddefnyddiwyd. Mae'n mesur pellter drwy daflu golau at darged gyda laser a dadansoddi'r golau a adlewyrchir. Mae'r wybodaeth a gesglir gan y sganiwr yn cynhyrchu data 'cymylau pwynt' sy'n gallu storio maint a lliw'r gwrthrychau a sganiwyd.

Drwy ailadrodd hyn pob 5-6 troedfedd, gall y dechnoleg gyplysu'r data a sganiwyd i greu darlun cywir o'r amgylchedd. Mae'r sganiwr hefyd yn gallu casglu data ffotograffig a'i grwpio gyda'i gilydd mewn amgylchedd sy'n debyg iawn i Google Street View.

Cafodd y data cymylau pwynt yna ei brosesu a'i drosi'n fformat cymylau pwynt addas i'w ddefnyddio mewn pecyn BIM parametrig a data-gyfoethog. Defnyddiwyd y cwmwl pwynt hwn fel cyfeirnod yn yr amgylchedd BIM, i greu darlun cywir. Gwnaed hyn drwy osod elfennau parametrig fel waliau, lloriau a thoeau i gyfateb i'r cwmwl pwynt.

6.2.2 Defnyddio'r Model

Fel y gallai staff yr oriel a'r arddangoswyr gael mynediad at y data a'i ddefnyddio'n ymarferol yn yr oriel, trodd Arup at uwch-realiti. Mae technolegau newydd yn gymorth i dimau dylunio ac adeiladu gyda delweddu syniadau a dyluniadau. Mae Realiti Rhithiol (VR) drwy bensetiau ac amgylcheddau 'trochi', ynghyd ag Uwch-Realiti (AR), yn caniatáu i ddylunwyr, datblygwyr a defnyddwyr ddelweddu'r dyluniad gorffenedig heb orfod ei adeiladu'n gyntaf.

Mae angen marcwyr cyfeiriol ar y technolegau AR presennol fel bo'r data yn yr amgylchedd rhithiol yn gallu gorchuddio'r gwir amgylchedd yn gywir. Ni ystyriwyd fod marcwyr fel tagiau RFID a barcod yn opsiynau hyfyw i'w defnyddio mewn amgylchedd oriel. Defnyddiwyd nodweddion yr adeilad ei hun drwy gymhwyso Lleoleiddio a Mapio Ar y Cyd (SLAM). Drwy SLAM mae dyfais Prosiect Tango'n defnyddio pwyntiau ar wynebau i gysylltu wynebau gwirioneddol i wynebau rhithiol, digidol.

Platfform technoleg gan Google yw Project Tango sy'n caniatáu i ddatblygwyr greu profiadau sy'n ymgorffori mapio 3D ac uwch-realiti.

6.3 Canlyniadau BIM

Mae'r defnydd hwn o dechnoleg uwch-realiti yn gadael i ddefnyddwyr 'ddelweddu' gwybodaeth fodel ac asedau na fyddai'n bosib fel arall. Gall y defnyddiwr pen-draw 'gwestiynu'r' model a chanfod lleoliad unrhyw ffitiadau'n gymharol hawdd. Bydd hyn yn hwyluso dylunio arddangosfa'n ogystal â rheoli a chynnal a chadw'r cyfleusterau.

Mae defnyddio technolegau BIM yn rhoi cyfle delfrydol i'r diwydiant adeiladu gofnodi adeiladau mewn ffordd ddeallus. Drwy gyfuniad gofalus o sganio a modelu, gellir cynhyrchu data clyfar a'i ailddefnyddio ar gyfer llu o bwrpasau. Mae'n cynnig ffordd effeithlon o ddatgelu gwybodaeth fodel y tu ôl i rwystrau ffisegol.

7 Diogelu at y Dyfodol – Cymhwyso Bil yr Amgylchedd

Mae'r prosiect wedi amlygu problemau y gallai'r diwydiant eu hwynebu yn y dyfodol. Yn benodol, o ran y gwaharddiadau sydd i ddod ar losgi a thirlenwi gwastraff pren, papur, cardbord, gwydr, plastig, metel a gwastraff bwyd o dan Fil yr Amgylchedd (Cymru).

Pe bai'r Bil yn cael ei gymhwyso i'r prosiect hwn gallai fod angen ateb arall i waredu 50.0m3 o wastraff a gynhyrchwyd. Bydd felly angen gwneud ymchwil i ddeall pa opsiynau gwaredu eraill, ynghyd â'r seilwaith priodol, fydd angen eu hystyried er mwyn gallu gwneud y newidiadau sy'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth.

8 Sialensiau Allweddol

8.1 Gwastraff

Roedd y prosiect yn rhagweld sialensiau rheoli gwastraff penodol yn codi o:

- Safle cyfyng heb lawer o le o gwbl i storio deunyddiau - mae'r safle mewn ardal adeiledig iawn yn union gerllaw ffordd brysur sy'n mynd â thraffig allan o'r ddinas. Mae'r ardal yma o Abertawe'n cael ei hadnewyddu'n barhaus gyda'r hen lyfrgell (gyferbyn â'r safle) yn cael ei throi'n rhan o Brifysgol Fetropolitan Abertawe - yr Ysgol Gelf
- Mae'r safle ar fryn serth gyda'r safle o'r herwydd yn un llechweddog - bu'n rhaid cyfyngu'r gwaith o gludo i ac o'r safle i gerbydau llai nad oedd modd eu llenwi'n llawn, gan olygu mwy o lwythi i ac o'r safle
- Y statws rhestredig Gradd II* - oherwydd bod angen adfer ac ailwampio'n sensitif, nodwyd potensial i gynhyrchu gwastraff ychwanegol. Roedd potensial i gynhyrchu gwastraff peryglus oherwydd y deunyddiau gwreiddiol a allai fod wedi cael eu defnyddio
- Ffrydiau gwastraff tebygol - gan gynnwys plastig, pren, pecynnu, brics (er i lawer o'r rhain gael eu tynnu, eu glanhau a'u paratoi ar gyfer eu hailddefnyddio), concrid a phlasterbord

Llwyddwyd i wahanu'r gwastraff yn dda er y diffyg lle. Defnyddiwyd bagiau tunnell o gwmpas y safle oedd yna naill ai'n cael eu symud gan gerbyd y cwmni i'w hailgylchu'n ôl wrth y sgipiau yn eu hiard, neu drwy ddod â'r sgipiau i waith penodol oedd yn cael ei wneud, lle'r oedd lle iddynt.

Drwy ddefnyddio cerbyd y cwmni i symud deunyddiau dros ben, dangoswyd fod cerbyd safle'n amhrisiadwy i atal gwastraff ac fel nad oedd angen prynu mwy o ddeunyddiau, ar lefel cwmni.

8.2 Ymddygiad/Diwylliant

Gall ymddygiad a diwylliant ar safle arwain at wastraff sylweddol yn aml, neu at agwedd ddihid at wastraff a'i wahanu.

Cafwyd fod y staff a gyflogir yn uniongyrchol gan John Weaver yn ymwybodol iawn o wastraff a sut y mae gwastraff a gynhyrchir ganddynt yn effeithio ar gostau ac ymarferoldeb y prosiect. Dilynodd hyn ddwy flynedd o hyfforddiant i'r staff i godi ymwybyddiaeth ar bob lefel yn y cwmni.

Cafodd y rheolwyr safle hefyd eu hyfforddi ar sut i gofnodi data gwastraff ar SMARTWaste. Cafwyd eu bod yn archwilio cynnwys y sgipiau'n rheolaidd ac yn tynnu allan unrhyw wastraff nad oedd wedi'i wahanu'n iawn neu y gellid ei ailddefnyddio. Os nad oedd sgip ar gael ar gyfer y safle oherwydd diffyg lle, byddai John Weaver yn dod â chyfleusterau storio dros dro i'r safle cyn cludo'r gwastraff yn ôl i'w iard i'w gywasgu ar gyfer ei ailgylchu.

Gyda'r rheolwyr a'r holl staff ar y safle'n ymwybodol o wastraff daeth yn rhan annatod o ddiwylliant y safle. Pan gyflogwyd isgontractwyr i wneud gwaith ar y safle, cafodd ymwybyddiaeth o wastraff ei godi â'r isgontractwyr hyn ynghyd â lleihau gwastraff a defnyddio eu deunyddiau'n effeithiol.

8.3 Sut y mae EZW wedi Dylanwadu ar Reoli Gwastraff ar gyfer Tîm y Prosiect?

Roedd Oriel Gelf Glynn Vivian yn brosiect heriol dros ben, o ran ei safle, y rhaglen a'r dyluniad cymhleth. Roedd yr adeilad blaenorol, ac o ganlyniad y safle, ar lethr serth heb fawr ddim lle i ddadlwytho a chadw deunyddiau adeiladu. Hefyd, roedd storio, didoli a gwaredu gwastraff yn anodd dros ben. O ganlyniad, bu'n rhaid blaenoriaethu'r dasg o reoli gwastraff er mwyn gwneud hynny yn y ffordd orau bosibl.

Llwyddwyd i ganfod ffyrdd o leddfu effeithiau gwastraff gyda chymorth cynllun Galluogi Dim Gwastraff (EZW) o eiddo Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru (CEW). Oherwydd natur y prosiect adnewyddu, a chan fod contractwr arall eisoes wedi gwneud y gwaith dymchwel, penderfynwyd canolbwyntio ar y feysydd lle gellid gwneud gwahaniaeth, er enghraifft ailddefnyddio pethau oedd eisoes ar y safle fel rhan o'r gwaith adnewyddu ac wrth adeiladu'r estyniadau newydd.

Darparwyd ymgynghorydd gan EZW a oedd yn galw heibio i weithio gyda thîm y safle i'w helpu i ganfod ffyrdd newydd a gwahanol o leihau gwastraff. Rhannwyd gwybodaeth fuddiol iawn a sefydlwyd perthynas dda gyda thîm y safle. Roedd hyn yn gam pwysig tuag at gyflawni'r deilliannau gorau.

Hefyd, darparodd CEW adnodd Modelu Gwybodaeth am Adeiladu (BIM) ar gyfer y prosiect i weld a fyddai hynny'n helpu i leihau gwastraff. Gan fod y dyluniad cymhleth eisoes yn ei le, byddai wedi bod yn afresymol ceisio defnyddio'r model hwn ar gyfer y cynllun cyfan. Ac felly penderfynwyd canolbwyntio'r agwedd BIM ar ddefnyddwyr terfynol yr adeilad, gyda'r nod o leihau cynnyrch gwastraff y dyfodol wrth i'r oriel newid ac addasu gofodau arddangos yn gyson. Pe byddid wedi defnyddio BIM o'r cyfnod dylunio dechreuol, byddai wedi bod o gymorth i gydlynu llawer o fanylion cymhleth, a hynny yn ei dro wedi helpu i leihau gwastraff y prosiect.

Yn ddi-os, bu'r wybodaeth a gasglwyd wrth weithio gyda CEW a dilyn cynllun Galluogi Dim Gwastraff o fudd i'r Contractwyr John Weaver a thîm y prosiect. Byddent hwy yn croesawu unrhyw gyfle i gydweithio eto yn y dyfodol.

9 Llwyddiannau

9.1 Targedau Llywodraeth Cymru

Nod Tuag at Ddyfodol Diwastraff (TZW), sef dogfen strategaeth drosfwaol Llywodraeth Cymru ar gyfer delio gyda gwastraff yng Nghymru, yw creu manteision i'r amgylchedd, yr economi ac i gymdeithas. Mae TZW yn gosod targed bod y diwydiant adeiladu a dymchwel yng Nghymru'n paratoi ar gyfer ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer fel arall o leiaf 70% o ddeunyddiau, yn ôl pwysau, erbyn 2015-16. Y targed ar gyfer 2019-20 yw 90%.

Drwy gyflawni cyfradd ailddefnyddio, ailgylchu neu adfer fel arall o 96.6%, yn ôl cyfaint, mae prosiect Glynn Vivian yn dangos pa mor gyraeddadwy yw'r targed presennol o 70%, yn ôl pwysau. Mae hefyd yn dangos pa mor gyraeddadwy yw'r targed 90%, yn ôl pwysau, erbyn 2019-20.

Nod Llywodraeth Cymru erbyn 2050 yw gallu osgoi tirlenwi 100% o wastraff adeiladu a dymchwel. Gellir priodoli'r 3.4% o wastraff y cyfrifwyd iddo gael ei dirlenwi ar y prosiect hwn i arferion y cwmni rheoli gwastraff. Ni allai Derwen ddarparu cyfraddau prosiect penodol ar gyfer ailgylchu, adfer a thirlenwi, dim ond perfformiad eu holl waith. Mae hyn yn ei gwneud yn amhosib profi llwyddiant gydag osgoi tirlenwi 100% o wastraff hyd nes y bydd y cwmnïau rheoli gwastraff naill ai'n osgoi tirlenwi 100% neu'n cofnodi cyrchfan pen draw'r gwastraff ar gyfer prosiectau penodol.

Er llwyddo i gyflawni'r targedau uchod ystyrir bod angen mwy o ffocws ar ailddefnyddio ac atal gwastraff yn hytrach na dibynnu ar effeithlonrwydd y seilwaith rheoli gwastraff. Rhaid gwastraffu 1.4% yn llai o flwyddyn i flwyddyn er mwyn gallu cyflawni'r targedau yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff ar gyfer y sector.

9.2 Ymwybyddiaeth o Wastraff

Roedd gwastraff yn uchel ar agenda John Weaver a'r gweithwyr ar y safle ac yn glir i aelodau o dîm EZW a fu'n ymweld â'r safle. Cafwyd fod y staff safle a gyflogir yn uniongyrchol gan John Weaver yn ymwybodol o faterion gwastraff a'u heffaith ar y prosiect a chostau'r prosiect.

Hyfforddwyd y Rheolwyr Safle i gofnodi data gwastraff ar SMARTWaste eu hunain. Cafwyd eu bod yn archwilio cynnwys y sgipiau'n rheolaidd ac yn tynnu allan unrhyw wastraff nad oedd wedi'i wahanu'n iawn neu y gellid ei ailddefnyddio.

Os nad oedd sgip ar gael ar gyfer y safle oherwydd diffyg lle, byddai John Weaver yn dod â chyfleusterau storio dros dro i'r safle cyn cludo'r gwastraff yn ôl i'w iard i'w gywasgu cyn ei waredu.

Roedd y gwaith a wnaed gan y cynrychiolydd amgylcheddol ar y safle, dros y ddwy flynedd ddiwethaf, i'w edmygu'n fawr. Er i'r prosiect gynhyrchu mwy o wastraff na'r disgwyl oherwydd gwaith tyllu'r ddaear a gwaith ychwanegol, daeth John Weaver o hyd i'r atebion gorau ar gyfer eu gwastraff drwy eu perthynas dda â chwmnïau gwastraff lleol.

Gellid codi ymwybyddiaeth o wastraff mewn cyfarfod cyn-gosod wrth ddod â chontractwyr ar y prosiect gan felly sicrhau bod ymwybyddiaeth wedi'i godi ar y dechrau cyn dod i'r safle.

9.3 BIM

Dylai'r defnydd arloesol o BIM ac uwch-realiti (AR) ar y prosiect hwn ddarparu manteision sylweddol yn y dyfodol. Bydd modd rheoli asedau a'r cyfleusterau yn Oriel Gelf Glynn Vivian yn well drwy fod yn gallu gweld gwasanaethau cudd heb wneud gwaith archwilio ymwthiol. Bydd hyn yn arbed amser, arian a deunyddiau sylweddol drwy gydol oes yr oriel.

Gellir yn awr ystyried gwneud defnydd tebyg o BIM ar brosiectau eraill diolch i'r esiampl arloesol hon. O'i gymhwyso ar draws y diwydiant adeiladu a rheoli adeiladu gallai defnyddio AR gyda BIM arwain at newid sylfaenol mewn effeithlonrwydd a ffyrdd o weithio.

Ar gyfer y prosiect hwn roedd AR yn caniatáu delweddu'r hyn oedd eisoes yn ei le a gellid yn hawdd ei ddefnyddio i ddelweddu'r hyn sydd eto i'w roi yn ei le. Bydd yn rhoi amgyffred gwell a llawer haws i beirianwyr a gweithredwyr ar y safle o'r hyn y bydd plymwyr a thrydanwyr etc yn ei osod a lle, gan leihau gwaith ofer a chywiro.

10 Casgliad ac Argymhellion

Mae Oriel Gelf Glynn Vivian wedi perfformio'n dda yn erbyn meincnodau SMARTWaste a thargedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cam adeiladu.

Er llwyddo i gyflawni'r targedau, mae angen mwy o ffocws ar ailddefnyddio ac atal gwastraff yn hytrach na dibynnu ar effeithiolrwydd y seilwaith rheoli gwastraff. Mae cyfle i fod yn fwy effeithlon ac effeithiol ar safle gan greu potensial i wneud arbedion gwastraff a chost.

Mae arbedion cost ar gael i gwmnïau sy'n fodlon ystyried yr hierarchaeth wastraff ym mhob un o wahanol gamau eu prosiect. Atal yw'r lefel allweddol yn yr hierarchaeth er mwyn gwneud arbedion sylweddol, fel y mae'r prosiect hwn wedi'i ddangos. Mae BIM yn rhoi cyfle i ddyluniadau gael eu profi a'u newid gyda golwg ar atal unrhyw wrthdaro, er enghraifft. Gall y ddau beth fod yn ddrud a gwastraffus.

Mae pwysigrwydd gwahanu gwastraff ar y dechrau wedi'i brofi ynghyd â chanolbwyntio ar drafod gwastraff ym mhob un o wahanol gamau'r prosiect, gyda phawb ar y safle. Mae ymgysylltu â holl aelodau'r tîm ar y safle'n bwysig wrth geisio cynnal arferion gorau a gwahanu ar adegau o bwysau ar y safle, yn enwedig yn ystod y cyfnod terfynol cyn trosglwyddo.

10.1 Argymhellion i Gwsmeriaid

Gall gwaith ychwanegol gael effaith sylweddol ar wastraff. Yn yr achos hwn arweiniodd gais y cwsmer i wneud gwaith ychwanegol at orfod dibynnu ar sgipiau gwastraff cymysg oherwydd na ellid rhagweld a chynllunio ar gyfer ffrydiau gwastraff, yn ogystal â diffyg lle ar y safle.

Mae angen i'r cwsmer ddeall y gall eu penderfyniadau gael effaith ganlyniadol ar reoli gwastraff. Dylid eu hannog i feddwl drwy unrhyw anghenion ychwanegol a allai godi, yn ddelfrydol ymhell cyn y cam adeiladu. Ystyried sut y byddwch yn defnyddio eich ased? Pa alwadau y byddwch yn eu rhoi arno a sut y bydd hyn yn effeithio ar ei hirhoedledd? Dylai BIM helpu cwsmeriaid i ddelweddu'r ased newydd a helpu gyda'r broses hon.

Pan fydd angen gwneud newidiadau yn ystod y gwaith, dylai'r cwsmer ganiatáu amser ar gyfer rheoli'r gwaith dylunio, adeiladu a gwastraff yn drylwyr. Dylai'r cwsmer gynnal deialog barhaus ag ymgynghorwyr dylunio a chontractwyr rhag ofn bod angen gwneud newidiadau.

.10.2 Argymhellion i Ddylunwyr

Mae BIM yn cynnig opsiwn hyfyw ar gyfer dileu gwastraff dylunio. Bydd defnyddio mwy ar BIM yn golygu gwneud penderfyniadau dylunio'n gynt gan wneud y broses yn fwy rhagweithiol nag adweithiol. Bydd gallu delweddu mewnbwn pob crefftwr yn hawdd, drwy uwch-realiti, yn golygu gallu adnabod unrhyw gamgymeriadau neu wrthdaro'n hawdd. Mae gweithio'n effeithiol gyda BIM yn sicrhau llif cyson o wybodaeth gan annog cyd-ddealltwriaeth a pherthynas weithio dda.

Ystyried rheoli asedau. Sut y bwriedir defnyddio'r ased a sut y bydd y defnydd yn newid dros amser? Er enghraifft, bydd gwahanol arddangosion yn cael eu hongian yn yr oriel ar wahanol waliau mewn gwahanol ffyrdd dros oes yr oriel. Bydd dylunio ar gyfer addasiadau'n ymestyn defnyddioldeb yr ased ac yn hwyhau ei oes.

10.3 Argymhellion i Gontractwyr

Mae sefydlu'r compownd gwastraff yn rhan bwysig o'r strategaeth rheoli gwastraff a dylai fod yn un o brif bryderon pencampwr gwastraff y safle wrth gynllunio gwaith ar y safle. Dylai fod yn flaenoriaeth bod gan gontractwyr aelod tîm ar y safle sy'n cymryd meddiant o reoli gwastraff.

Dylai compowndiau gwastraff gynnwys sgipiau gwahanu gwastraff o'r diwrnod cyntaf ar y safle a dylid egluro eu pwrpas i bawb. Yn ddelfrydol ni ddylid defnyddio sgip gwastraff cymysg ond, lle bo'i hangen, dylid ei lleoli mor bell â phosib o waith y safle er mwyn cymell gweithwyr i beidio ei defnyddio.

Dylid canolbwyntio ar sicrhau'r ymrwymiadau cytundebol gan nodi y dylid cadw at holl gamau'r hierarchaeth wastraff cyn gwaredu gwastraff i'w dirlenwi. Bydd hyn yn lleihau effaith bosib penderfyniadau'r isgontractwyr ar dargedau ailgylchu, ailddefnyddio ac adfer fel arall y prosiect. Dylid canolbwyntio ar, a thrafod gwastraff ym mhob un o wahanol gamau'r prosiect, gyda phawb ar y safle'n cyfrannu at hyn.

Roedd y deunyddiau pecynnu gwastraff yn sylweddol ar y prosiect hwn. Gall cyflenwyr chwarae rôl allweddol drwy becynnu llai cyn belled ag y bo'r contractwyr yn

cyfathrebu problemau gyda'i waredu i'w cyflenwyr. Yn aml iawn gellir trefnu cynllun derbyn pecynnu'n ôl gyda gweithgynhyrchwyr neu gyflenwyr ond mae angen rhagweld a chynllunio hyn fel bo'r cytundeb yn ei le cyn i'r gwastraff ddod yn broblem.

Bydd Bil yr Amgylchedd (Cymru) yn gwahardd gwaredu gwastraff pren, papur, cardbord, gwydr, plastig, metel a gwastraff bwyd drwy losgi neu dirlenwi. Bydd angen i gontractwyr ystyried sut i ddelio â'r gwastraff hwn oherwydd mae'n debyg y bydd y gost o'i waredu'n cynyddu i dalu am ymchwil i opsiynau gwaredu eraill. Atal yw'r ateb mwyaf cost-effeithiol ac mae arferion gorau'n allweddol i hyn.

11 Cyfeiriadau

1. **Llywodraeth Cymru**. Tuag at Ddyfodol Diwastraff: Strategaeth Wastraff Drosfwaol ar gyfer Cymru. Caerdydd: Hawlfraint y Goron 2010.

2. **Syr John Egan – Y Gweithlu Adeiladu**. Rethinking Construction. Llundain: Hawlfraint y Goron 1998.

3. **John Weaver (Contractors)**. Cwmni. John Weaver (Contractors). [Ar-lein] John Weaver (Contractors), 2015. [Ffynhonnell:] http://www.johnweaver.co.uk/company.html.

4. **Cymru Hanesyddol**. [Ar-lein] Gorffennaf 01, 2014. [Ffynhonnell: Medi 13, 2016.] http://historicwales.gov.uk/.

5. **Cyngor Dinas a Sir Abertawe**. Ailddatblygu Oriel Gelf Glynn Vivian. Cyngor Dinas a Sir Abertawe - Hamdden. [Ar-lein] Awst 31, 2016. [Ffynhonnell: Awst 31, 2016.] http://www.swansea.gov.uk/article/7180/Glynn-Vivian-redevelopment.

6. **Wales Online**. Business: Business News. Wales Online. [Ar-lein] Wales Online, Mehefin 25, 2013. [Ffynhonnell: Awst 31, 2016.] http://www.walesonline.co.uk/business/business-news/55-jobs-lost-construction-business-4709043.

7. **ARUP**. Reducing waste; BIM buried services case study. 2015.